# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD LLUN, 23AIN CHWEFROR, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting**

Pwynt Cyswllt

**Courtney Leigh Jones**

**Courtneyleighjones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 16 Chwefror 2026)

# PWYLLGOR SAFONAU

## AELODAETH

## Aelodau Etholedig (3)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd-Jones
Beth Lawton
Dewi Owen

## Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)

Aled Jones
Hywel Eifion Jones
Mark Jones
Non Gibson
Sedd Wag

## Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)

Richard Parry Hughes

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor hwn.

## 2. ETHOL IS GADEIRYDD

I ethol Is Gadeirydd ar gyfer y pwyllgor hwn.

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd.

## 6. COFNODION 5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 3 Tachwedd 2025, fel rhai cywir.

## 7. AELODAETH Y PWYLLGOR SAFONAU 9 - 10

Er gwybodaeth.

## 8. RHAGLEN WAITH ARFAETHEDIG 2026-27 11 - 12

I ystyried rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2026-27.

## 9. HONIADAU YN ERBYN AELODAU 13 - 37

Er gwybodaeth.

## 10. DIWYGIADAU EGWYDDORION A CHOD YMDDYGIAD AELODAU 38 - 66

Cynghori aelodau am ddiwygiadau arfaethedig i Gôd Ymddygiad yr Aelodau a Pholisi Canu'r Gloch y Cyngor

## 11. COFRESTR RHODDION A LLETYGARWCH AELODAU 67 - 74

Er mwyn ystyried cyhoeddi cofrestr Rhoddion a Lletygarwch Aelodau.

## PWYLLGOR SAFONAU, 03/11/25

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Beth Lawton, Anne Lloyd Jones a Dewi Owen.

**Aelodau Annibynnol:** Mr Hywel Eifion Jones (Cadeirydd), Mr Mark Jones, Ms Non Gibson, Mr Aled Jones

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:** Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Courtney Jones a Rhodri Jones (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad Ms Sonya Khade (Aelod Annibynnol)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw fater brys i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2025 fel rhai cywir.

**5. COFRESTR RHODDION A LLETYGARWCH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Priodoldeb ac Etholiadau. Cadarnhawyd bod hwn yn adroddiad rheolaidd i'r Pwyllgor, yn unol â'i raglen waith. Nodwyd ei fod yn gysylltiedig â Chod Ymddygiad Cynghorwyr, sy'n ei wneud yn ofynnol i aelodau ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro o unrhyw gynnig o letygarwch, buddiant materol neu fantais sy'n werth mwy na £25, fel y swm hicyn sydd wedi ei bennu gan Gyngor Gwynedd. Cadarnhawyd bod yr egwyddorion wedi ei amlinellu yn y protocol, sydd yn rhoi arweiniad i aelodau ynglŷn â beth sydd yn addas i'w dderbyn. Nodwyd bod rhoddion sydd wedi ei wrthod gan aelodau hefyd yn cael eu cofrestru, er mwyn dadansoddi patrymau ayyb.

Cadarnhawyd mai nifer isel o gofrestriadau rhoddion sydd wedi bod eleni, sydd yn debyg i'r flwyddyn flaenorol 2024/25. Sylwyd mai dim ond 3 cofrestr newydd sydd wedi dod i law ers y cyfarfod diwethaf, a rheiny yn ymwneud a'r un digwyddiad.

Diolchwyd am yr adroddiad a mynegwyd canmoliaeth ynghylch cydymffurfiaeth aelodau'r Cyngor a'r polisi. Awgrymwyd y dylid ystyried gyhoeddi cofrestr rhoddion a lletygarwch ar wefan y Cyngor, er mwyn adlewyrchu hyder y cyhoedd a sicrhau tryloywder. Nodwyd bod materion diogelwch data hefyd yn bwysig a bydd angen i hyn gael ystyriaeth wrth ystyried opsiynau cyhoeddi gwybodaeth ar-lein. Penderfynwyd byddai'r Swyddog Monitro yn paratoi adroddiad ynghylch opsiynau ar gyfer nodi'r wybodaeth ar-lein erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**
**Derbyn cynnig y Swyddog Monitro i baratoi adroddiad ynghylch opsiynau ar gyfer nodi gwybodaeth ar wefan y Cyngor, i'w gyflwyno i'r Aelodau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn, sydd wedi ei raglennu ar gyfer 23 Chwefror 2026.**

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro.

Mynegwyd pryder bod cryn dipyn o achosion yn mynd ymlaen i'r ombwdsman sydd yn golygu felly bod yr Ombwdsmon ar ei hol hi efo'u gwaith. Mynegwyd nad ydynt yn cyrraedd eu targedau, ond hyn yn amlwg gan fod eu llwyth gwaith mor uchel. Tynnwyd sylw at y llwyth gwaith sydd gan yr Ombwdsmon a mynegwyd sylw y dylid ystyried

Sylwyd bod 315 cwyn yn ymwneud a chod ymddygiad a bod cyn lleied â 49 wedi eu harchwilio. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol ceisio datrys mwy o faterion yn fewnol cyn iddynt orfod mynd ymlaen i'r ombwdsmon er mwyn gallu rheoli'r llwyth gwaith yn well a delio a mwy o achosion yn effeithlon.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynghylch yr angen am ganfyddiad o euogrwydd fel sail dystiolaethol er mwyn atal cynghorwyr o'u gwaith, cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod materion troseddol yn ddibynnol ar ganfyddiad o euogrwydd er mwyn gweithredu yn briodol.

**PENDERFYNIAD**

**Nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.**

**7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau. Rhoddwyd gwybodaeth i'r pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsman ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau. Adroddwyd mai crynodeb yw hwn o gwynion sydd wedi cau er mwyn rhoi darlun i'r Pwyllgor o'r math o bethau sy'n cael eu cyfeirio at yr Ombwdsmon a'r penderfyniadau a wneir wrth asesu'r cwynion. Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau o benderfyniadau oddi wrth yr Ombwdsmon ers yr adroddiad blaenorol.
Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod cwyn yn erbyn cyn - aelod o'r Cyngor wedi ei chyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru yn uniongyrchol gan yr

Ombwdsmon. Nodwyd y gobeithiwyd bydd mwy o fanylion ynghylch y mater hwn ar gael erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor, felly bydd modd manylu arno bryd hynny.

Gofynnwyd beth yw sefyllfa Aelodau ynghylch datgan buddiant ar gyfer penderfyniadau pan yn aelod o fyrddau ymddiriedolaeth. Esboniwyd bod y mater hwn yn rhan o'r dyletswyddau statudol a cyfreithiol tuag at y cwmni neu elusen hwnnw i hyrwyddo llwyddiant y cwmni perthnasol ond bod angen hefyd ystyried y mater o wrthdrawiadau buddiannau a bod angen bod yn ofalus i beidio mynd yn erbyn y naill a'r ddyletswydd. Nodwyd bod angen delio a'r mater unigryw yn unol â'r gofynion a'r ymddiriedolaeth neu'r cwmni a dilyn y canllawiau priodol. Manylwyd bod y cod ymddygiad yn nodi yn gyffredinol y dylid dilyn y cod ymddygiad y mudiad mae'r aelod yn rhan ohono. Eglurwyd ei fod yn bosib cydweithio a'r Tîm Democratiaeth i greu dynodiad penodol esboniadol yn manylu ar y mater hwn yn y pecyn anwytho aelodau erbyn cyfnod Etholiadau nesaf yn 2027 er mwyn sicrhau dealltwriaeth ynglŷn â natur y cod a'r canllawiau perthnasol.

**PENDERFYNIAD**

**Nodi'r wybodaeth.**

8. **TREFN DATRYS MEWNOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro. Eglurwyd bod y Trefn Datrys Mewnol wedi bod mewn bodolaeth yng Ngwynedd ers 2013, ac yn creu proses anffurfiol ar gyfer ymdrin a chwynion lefel isel heb yr angen am gŵyn ffurfiol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Nodwyd bod yr Ombwdsmon wedi adolygu'r holl elfennau a phrotocolau datrys lleol yng Nghymru, ac wedi adnabod gwaith Gwynedd fel ymarfer da yn y maes. Atgoffwyd bod y Pwyllgor hwn wedi addasu trefn datrys leol Gwynedd tua 2 flynedd yn ôl i roi mwy o rôl i arweinyddion grwpiau ar y pryd yn y broses o ddatrys mewnol. Nodwyd bod hwn yn hyrwyddo datrysiad mewnol ac yn atgyfnerthu'r broses.

Cyfeiriwyd at yr heriau sydd yn wynebu cynghorau tref a chymuned a'r pwysau ar swyddogion monitro i ddatrys honiadau a thoriadau cod ymddygiadau. Nodwyd bod strwythur yn llafurus, ond ei fod yn tynnu pwysau sylweddol oddi ar yr Ombwdsmon. Amlygwyd bod hyn yn rhyddhau adnoddau'r Ombwdsman i ddelio a materion yn unol â'r cyfansoddiad.

**PENDERFYNIAD**

**Nodi'r adroddiad.**

**9. COFNODION FFORWM CENEDLAETHOL PWYLLGORAU SAFONAU**

Cyfeiriwyd at y cofnodion gan y Cadeirydd. Amlygwyd mai eitem er gwybodaeth yw hon ac felly ni bu drafodaeth.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn y wybodaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a daeth i ben am 11:20yb

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad** | **23 Chwefror 2026** |
| **Teitl** | **Aelodaeth y Pwyllgor Safonau** |
| **Awdur** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Pwrpas** | **Er gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Mae Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd yn cynnwys pump 'aelod annibynnol' (unigolion sydd heb unrhyw gysylltiad â llywodraeth leol), ynghyd ag un aelod o gyngor cymuned a thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd.

2. Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001( "y Rheoliadau") yn caniatáu i'r awdurdod benodi aelodau annibynnol am un cyfnod o rhwng pedair a chwe mlynedd a'u hail-benodi am un cyfnod olynol pellach, o ddim mwy na phedair blynedd. Mae'r gallu i ail benodi yn caniatáu parhad ond ar yr un pryd yn atal unigolyn rhag mynd yn rhy ymgorfforedig yn y pwyllgor. Mae hefyd yn golygu nad yw'r Pwyllgor yn colli'r profiad a'r arbenigedd y mae aelod wedi ei ennill yn ystod ei (g)wasanaeth.

3. Gosodir trefn statudol ar gyfer penodi aelodau annibynnol, sy'n cynnwys hysbysebu'r sedd wag a chyfweld ymgeiswyr gan banel penodi. Bydd y panel yn cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor Llawn, sydd â'r hawl i benderfynu ar y penodiad. Serch hynny, nid oes rheidrwydd i ddilyn y broses hysbysebu a chyfweld hon wrth ail-benodi aelodau annibynnol.

**Y Sefyllfa Bresennol**

4. Yn ei gyfarfod ar 5 Chwefror 2026 fel ail-benodwyd Hywel Eifion Jones am gyfnod pellach o bedair mlynedd fel Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor gan y Cyngor Llawn.

5. Cododd sedd wag yn dilyn ymddiswyddiad diweddar un o'r Aelodau Annibynnol, Sonya Khade. Yn ogystal a hyn, yn dilyn 10 mlynedd o wasanaeth gwerthfawr i'r Pwyllgor, bydd ail dymor aelodaeth Aled Jones yn dod i ben ym mis Mawrth eleni. Byddwn felly yn mynd i ati i hysbysebu'r ddwy sedd wag gyda'r bwriad o fedru cyflwyno argymhellion y Panel Penodi i gyfarfod y Cyngor Llawn ar 14 Mai 2026.

6. Diwygiwyd yn Rheoliadau eleni gan lacio rhywfaint ar y rheolau oedd yn rhwystro cyn-aelodau a chyn-swyddogion o awdurdod y Pwyllgor rhag cael eu penodi fel aelodau annibynnol. O hyn ymlaen felly, ni chaiff person fod yn aelod annibynnol os yw:

- yn aelod neu swyddog (neu yn briod neu mewn partneriaeth sifil ag aelod neu swyddog) unrhyw gyngor sir/bwrdeistref sirol, awdurdod tân, awdurdod parc cenedlaethol, neu gyngor cymuned/tref.

- yn gyn aelod o Gyngor Gwynedd hyd nes bod cyfnod o ddwy flynedd wedi mynd heibio ers i'r person hwnnw beidio a bod yn aelod neu,os oedd yn dal swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol, bod pum mlynedd wedi mynd heibio ers iddo/i beidio dal swydd o'r fath

- Yn gyn swyddog Cyngor Gwynedd oedd yn dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol neu yn swyddog cofrestru hyd nes bod cyfnod o ddwy flynedd wedi mynd heibio ers iddo/i beidio â dal swydd o'r fath.

**Argymhelliad**

7. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD** | **23 Chwefror 2026** |
| **TEITL** | **Rhaglen Waith Arfaethedig 26-27** |
| **AWDUR** | **Swyddog Monitro** |

1. Amcan yr adroddiad yma yw cynnig rhaglen ddrafft ar gyfer gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2026-27

2. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau wedi gosod drwy statud yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac mae'n amserol efallai fod y Pwyllgor yn talu sylw newydd ar y rhain ar ddechrau tymor newydd er ffurfio cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn.

   (a) Hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig yr Awdurdod;

   (b) Cynorthwyo'r Cynghorwyr a'r Aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau;

   (c) Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau;

   (ch) Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau;

   (d) Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad Aelodau.

   (e) a'r swyddogaethau penodol yma

   (f) Ymarfer y swyddogaethau perthnasol uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned

   (g) monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor â'u dyletswyddau o dan adran 52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000;

   (h) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny.

3. Mae elfennau sefydlog I'r rhaglen yma ond mae'n gyfle hefyd i raglennu gwaith a adolygiadau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i'r Pwyllgor adolygu y rhaglen arfaethedig a chynnig unrhyw addasiadau.**

**ATODIAD 1 APPENDIX 1**

| **Gwaith Pwyllgor Safonau 2026/27** | **Standards Committee Work –2026/27** |
|---|---|
| **8 Mehefin 2026**<br><br>Adroddiad Blynyddol<br><br>Adolygu gweithrediad Protocol Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol<br><br>Honiadau yn erbyn aelodau<br><br>Hunan Asesiad<br><br>Adolygiad trefniadau cofrestrau buddiannau | **9 June 2026**<br><br>Annual Report<br><br>Review the operation of the Group Leaders Protocol<br><br>Allegations Against Members<br><br>Self-Assessment<br><br>Review of registers of interest arrangements |
| **2 Tachwedd 2026**<br><br>Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch<br><br>Cofrestr Datgan Buddiant<br><br>Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsman<br><br>Honiadau yn erbyn Aelodau<br><br>Derbyn adroddiad o Fforwm Safonau Cymru | **2 November 2026**<br><br>Gifts and Hospitality Register<br><br>Declaration of Interest Registers<br><br>Ombudsman’s Annual Report<br><br>Allegations Against Members<br><br>Receive report from the Wales Standards Forum |
| **22 Chwefror 2027**<br><br>Adroddiad Blynyddol y Panel Dyfarnu<br><br>Honiadau yn erbyn aelodau<br><br>Rhaglen Waith<br><br>Trefniadau Anwytho Aelodau Newydd<br><br>. | **22 February 2027**<br><br>Annual Report of Adjudication Panel<br><br>Allegations against members<br><br>Work Programme<br><br>Induction Arrangements for New Members |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **23 Chwefror 2026** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**2. Penderfyniadau**

2.1 Ceir crynodebau o'r penderfyniadau a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon fel **Atodiad 1**

2.2 Atodir Rhybudd Dyfarniad Panel Dyfarnu Cymru ar gŵyn yn erbyn cyn-gynghorydd o Gyngor Gwynedd fel **Atodiad 2.** Mae'r Panel wedi cyhoeddi Adroddiad Dyfarniad sy'n cynnwys y penderfyniad rhesymedig llawn ar ei wefan https://paneldyfarnu.llyw.cymru

**3. Argymhelliad**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth

**Crynodeb o adroddiad a gyhoeddwyd o dan adran 69 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 Rhif Achos: 202501611**

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Cyn-Aelod ("y Cyn-Aelod") o gyngor cymuned ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad ("y Cod"). Honnwyd bod y Cyn-Aelod wedi methu â datgan buddiant mewn cyfarfod o'r Cyngor ym mis Mawrth 2025, ynglŷn â'i chysylltiad ag ysgol ("yr Ysgol") ac elusen ("yr Elusen").

Dechreuodd Swyddfa'r Ombwdsmon ymchwiliad i ystyried paragraffau 11(1) a 12(1) (buddiannau personol a rhagfarnllyd) o'r Cod. Cafwyd gwybodaeth gan y Cyngor a'r Elusen. Darparwyd sylwadau gan y Clerc, yr Achwynydd a'r Cyn-Aelod. Ymddiswyddodd y Cyn-Aelod o'r Cyngor yn ystod yr ymchwiliad.

Canfu'r ymchwiliad fod y Cyngor wedi gwneud rhoddion blynyddol i'r Elusen (a gefnogodd yr Ysgol) yn 2024 a 2025, ac roedd y Cyn-Aelod wedi bod yn weithiwr i'r Ysgol ac yn ymddiriedolwr yr Elusen ar y pryd. Canfuwyd, er bod y Cyn-Aelod wedi datgan diddordeb ynglŷn â'r mater yn 2024, roedd wedi methu â gwneud hynny am yr un mater yn 2025 ac felly, gallai fod wedi torri paragraffau 11(1) a 12(1) o'r Cod. Canfuwyd hefyd, fodd bynnag, nad oedd ei phresenoldeb yn effeithio ar ganlyniad y penderfyniadau a wnaed, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o fudd ariannol uniongyrchol neu arall i'r Cyn-Aelod a dim tystiolaeth o niwed i un arall oherwydd ei bod yn rhan o'r cyfarfodydd.

Canfu'r Ombwdsmon o ystyried y ffeithiau ynghylch y busnes sy'n cael ei ystyried, bod y toriadau yn ymddangos yn dechnegol eu natur. Felly, ar y cyd, gan ystyried natur gyfyngedig y mater, diffyg hyfforddiant neu fwriad, cyngor anghywir ac ymddiswyddiad y Cyn-Aelod, roedd yr Ombwdsmon yn fodlon nad oedd unrhyw doriadau a awgrymwyd yn ddigon difrifol i gyfiawnhau cyfeirio at y Pwyllgor Safonau er budd y cyhoedd.

Canfu'r Ombwdsmon nad oedd angen cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r materion a ymchwiliwyd.

**Penderfyniad a ddyroddwyd o dan baragraff 69(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000**
**Rhif Achos: 202506877**

**Crynodeb o'r gŵyn**

Honnwyd gan aelod o'r cyhoedd ("yr Achwynydd") fod yr Aelod wedi torri'r Cod trwy bostio datganiadau sy’n creu casineb ac ofn ar y cyfryngau cymdeithasol yn ymwneud â mewnfudo.

**Sut rydyn ni'n penderfynu a ddylid ymchwilio**

Er mwyn penderfynu a ddylid ymchwilio i dorri'r Cod Ymddygiad ("y Cod"), rydym yn cymhwyso prawf 2 gam. Yn gyntaf, rydym yn ystyried a oes tystiolaeth i awgrymu y gallai torri'r Cod fod wedi digwydd. Yn ail, rydym yn ystyried a yw er budd y cyhoedd i ymchwilio i'r materion y cwynwyd amdanynt. Rydym yn ystyried nifer o ffactorau budd y cyhoedd megis:

- difrifoldeb yr ymddygiad honedig
- a yw'r aelod wedi camddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth neu wedi ceisio ennill, drostynt eu hunain neu eraill, ar draul cyhoeddus
- a oes angen ymchwiliad i gynnal hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig
- a yw ymchwiliad yn gymesur yn yr amgylchiadau neu a fyddai, os caiff ei brofi, atgyfeirio at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn briodol.

**Fy Mhenderfyniad**

**(1) A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai fod wedi bod yn torri'r Cod Ymddygiad.**

Darparodd yr Achwynydd ddogfennaeth ategol sy'n cynnwys sgrinluniau o 2 bost cyfryngau cymdeithasol a wnaed gan yr Aelod. Mae eu natur a chynnwys yn ymwneud â mewnfudo anghyfreithlon ac maent yn amlwg wedi'u hanelu at y Cyngor a'r Heddlu.

Wrth asesu cwynion yn y Cod, mae angen ystyried natur yr honiadau a wnaed yn erbyn yr Aelod y cwynwyd amdanynt, yng nghyd-destun y dyletswyddau a'r rhwymedigaethau a osodir arnynt o dan y Cod ar gyfer aelodau etholedig/cyfetholedig. Mae'r Cod fel arfer ond yn berthnasol pan fo aelod o gyngor yn cyflawni swyddogaethau fel cynghorydd neu'n ceisio dibynnu mewn rhyw ffordd ar eu statws fel cynghorydd. Mae hyn yn berthnasol oherwydd, yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd a chyd-destun y sylwadau a wnaed, mae'n ymddangos bod yr Aelod yn gweithredu mewn rôl swyddogol mewn o leiaf un o'r postiadau cyfryngau cymdeithasol.

Cydnabyddir bod yr Achwynydd o'r farn bod sylwadau'r Aelod yn creu casineb ac ofn. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y postiadau yn cynrychioli barn yr Aelod. Nid yw'r sylwadau wedi'u cyfeirio at unigolyn penodol ac yn canolbwyntio'n bennaf ar yr hyn y mae'n credu, y dylai'r Cyngor a'r Heddlu fod yn ei wneud am fewnfudo anghyfreithlon. Mae gan yr Aelod hawl i gynnal a rhannu ei farn, hyd yn oed os nad yw eraill yn cytuno, neu'n wir, yn cael eu tramgwyddo ganddynt.

Mae Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("ECHR") (fel y'i hymgorfforwyd yn Neddf Hawliau Dynol 1998) yn ymwneud â rhyddid mynegiant. Mae'n nodi:

"1. Mae gan bawb yr hawl i ryddid mynegiant. Bydd yr hawl hon yn cynnwys rhyddid i gynnal barn ac i dderbyn a rhannu gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth gan awdurdod cyhoeddus a waeth beth fo'u ffiniau.

2. Gall arfer y rhyddid hyn, gan ei fod yn cario dyletswyddau a chyfrifoldebau, fod yn ddarostyngedig i'r fath ffurfioldeb, amodau, cyfyngiadau neu gosbau a ragnodir gan y gyfraith ac sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd... er mwyn atal anhrefn neu droseddu, er mwyn diogelu iechyd neu foesau, er mwyn diogelu enw da neu hawliau eraill".

Mae Erthygl 10 yn hawl gymwys ac felly gellir cyfyngu ar yr hawl i ryddid mynegiant trwy osod sancsiynau mewn perthynas â darpariaethau a ragnodir gan y gyfraith, fel y rhai a gynhwysir yn y Cod, ar yr amod bod y cyfyngiadau'n angenrheidiol ac yn gymesur ac yn dilyn nod cyfreithlon.

Mae hyn yn golygu, hyd yn oed pe bai torri'r Cod yn cael ei brofi mewn perthynas ag unrhyw beth yr honnir bod yr Aelod wedi'i ddweud, er mwyn cyfiawnhau sancsiynau, byddai angen iddo fod yn ymyrraeth gymesur â hawl yr Aelod i ryddid mynegiant. Mae cyfraith achos ar y mater hwn wedi canfod bod ymyrraeth o'r fath yn debygol o fod yn gymesur dim ond os yw'r iaith a ddefnyddir yn hynod ddifrifol.

Wedi dweud hynny, nid yw hawl Aelod i ryddid mynegiant yn absoliwt a rhaid ei gydbwyso yn erbyn yr angen i amddiffyn hawliau a buddiannau eraill. Nid yw'r egwyddorion cyfreithiol ar y mater hwn yn darparu ffiniau clir ar gyfer yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol, ac mae'n rhaid ystyried pob achos ar ei rinweddau ei hun. Nid yw rhyddid mynegiant yn ddiderfyn a pho waethaf yw'r ymddygiad dan sylw, y mwyaf yw'r cyfiawnhad i gyfyngu ar fynegi gan ddefnyddio darpariaethau'r Cod.

Mae sylwadau'r Aelod yn ymwneud â mater gwleidyddol ac felly mae'n debygol y byddai gan yr Aelod fwy o amddiffyniad o dan Erthygl 10. Yn yr achos hwn mae'n annhebygol y byddai postiadau'r Aelod yn cael eu hystyried yn ddigon difrifol fel y byddai ymchwiliad

a/neu sancsiwn yn cael ei ystyried yn ymyrraeth gymesur â hawl yr Aelod i ryddid mynegiant.

Disgwylir safonau ymddygiad uchel gan gynghorwyr lleol yng Nghymru. Rhaid i gynghorwyr gydbwyso eu hawl i ryddid mynegiant gyda'u cyfrifoldebau i gynnal parch ac uniondeb. Rhaid i gynghorwyr drin eraill gyda pharch ac osgoi ymosodiadau personol, aflonyddu neu sylwadau gwahaniaethol. Er bod y sylwadau'r Aelod wedi achosi rhywfaint o bryder i'r Achwynydd, nid yw'r dystiolaeth a ddarperir yn arwydd o ymddygiad gwarthus neu sarhaus a fyddai'n awgrymu torri'r Cod a/neu gyfiawnhau ymyrraeth â hawl yr Aelod i leferydd gwleidyddol ar yr achlysur hwn.

**(2) A oes angen ymchwiliad er budd y cyhoedd**

Nid yw'r ymddygiad y cwynwyd amdano yn bodloni cam cyntaf y prawf, fel y nodir uchod, felly, nid oes angen ystyried ail gam y prawf.

**Canlyniad**

Ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn.

**Penderfyniad a ddyroddwyd o dan baragraff 69(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000**
**Rhif Achos: 202508404**

**Crynodeb o'r gŵyn**

Honnwyd bod yr Aelod yn ystod cyfarfod y Cyngor, wrth drafod diweddariad ar fusnes lleol a'i Bwyllgor Ymddiriedolaeth, wedi gwneud sylwadau camarweiniol a chynhyrfus am Ymddiriedolwr ("yr Achwynydd").

Sut rydyn ni'n penderfynu a ddylid ymchwilio

Er mwyn penderfynu a ddylid ymchwilio i dorri'r Cod Ymddygiad ("y Cod"), rydym yn cymhwyso prawf 2 gam. Yn gyntaf, rydym yn ystyried a oes tystiolaeth i awgrymu y gallai torri'r Cod fod wedi digwydd. Yn ail, rydym yn ystyried a yw er budd y cyhoedd i ymchwilio i'r materion y cwynwyd amdanynt. Rydym yn ystyried nifer o ffactorau budd y cyhoedd megis:

• difrifoldeb yr ymddygiad honedig

• a yw'r aelod wedi camddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth neu wedi ceisio ennill, drostynt eu hunain neu eraill, ar draul cyhoeddus

• a oes angen ymchwiliad i gynnal hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig

• a yw ymchwiliad yn gymesur yn yr amgylchiadau neu a fyddai, os caiff ei brofi, atgyfeirio at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn briodol.

**Fy Mhenderfyniad**

**(1) A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai fod wedi torri'r Cod Ymddygiad**

Mae'r Achwynydd yn honni bod y sylwadau a wnaed gan yr Aelod yn ystod cyfarfod y Cyngor ar 10 Rhagfyr 2025 yn gamarweiniol. Yn benodol, cododd yr Achwynydd bryderon bod yr Aelod wedi dweud 'a letter has been sent to [the trustees] explanation the issues in simple terms, that every person would understand'. Fodd bynnag, barn yr Achwynydd oedd bod y llythyr y cyfeiriodd yr Aelod ato yn dechnegol iawn, cyfreithiol ac yn gofyn am ddehongliad arbenigol. Mynegodd yr Aelod hefyd y farn bod yr Achwynydd wedi costio miloedd o bunnoedd i'r Cyngor mewn ffioedd cyfreithiol. Dywedodd yr Achwynydd fod hyn yn anghywir ac yn faleisus.

Mae gan bawb yr hawl i ryddid mynegiant o dan Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sydd wedi'i ymgorffori yng nghyfraith y DU gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Efallai y bydd yn ddefnyddiol esbonio, wrth weithredu fel aelod etholedig a mynegi safbwyntiau gwleidyddol neu gynnal busnes gwleidyddol, bod rhyddid mynegiant aelod yn cael ei amddiffyn uwch, yn fwy felly nag aelod cyffredin o'r cyhoedd. Ymhellach, fel gwleidyddion, mae'n debygol y bydd aelodau yn cael eu hamddiffyn hyd

yn oed lle gall yr iaith a ddefnyddir ganddynt fod yn ymfflamychol, ar yr amod bod y ffocws ohono yn wleidyddol. Nid yw sylwadau gwleidyddol wedi'u cyfyngu i siambr y Cyngor a gallant gynnwys sylwadau y gall aelodau eu gwneud yn gyffredinol am bolisïau eu hawdurdod neu bolisïau'r llywodraeth. Mae mynegiant gwleidyddol yn ymestyn i bob mater o weinyddiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw hawl aelod i ryddid mynegiant yn absoliwt ac mae'n rhaid ei gydbwyso yn erbyn yr angen i amddiffyn hawliau a buddiannau eraill. Nid yw'r egwyddorion cyfreithiol ar y mater hwn yn darparu ffiniau clir ar gyfer yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol, ac mae'n rhaid ystyried pob achos ar ei rinweddau ei hun. Nid yw rhyddid mynegiant yn ddiderfyn a pho fwyaf difrifol yw'r ymddygiad dan sylw, y mwyaf yw’r cyfiawnhad i gyfyngu ar fynegi gan ddefnyddio darpariaethau'r Cod.

Nid wyf yn argyhoeddedig bod y sylwadau yn annheg ac wedi niweidio enw da yr Achwynydd, mae'n ymddangos i mi eu bod yn cynrychioli barn yn hytrach na datganiad o ffaith. Rwy'n credu y gellir ystyried sylwadau o'r fath yn rhesymol fel mynegiant gwleidyddol ac felly byddai'n elwa o fwy o ryddid mynegiant.

Gan werthfawrogi bod yr Achwynydd yn anghytuno â'r sylwadau a wnaed, nid ydynt yn ddigon difrifol nac anghymesur fel bod cyfyngiad yn angenrheidiol i amddiffyn hawliau a buddiannau eraill. Mae beirniadaeth ac anghytuno safbwyntiau yn rhan o ddisgwrs ddemocrataidd ac nid yw, ynddo'i hun, yn gyfystyr â methiant i drin rhywun gyda pharch. Mae gan yr Aelod hawl i gael a rhannu ei farn, hyd yn oed os nad yw eraill yn cytuno, neu'n wir, yn cael eu tramgwyddo ganddynt. Nid yw'n anghyffredin i aelodau etholedig ddweud pethau y gall eraill eu hystyried yn anghwrtais neu'n sarhaus, fodd bynnag, nid pwrpas y Cod yw atal rhyddid lleferydd a mynegiant cadarn gwahaniaethau gwleidyddol. Dywedodd yr Achwynydd ei fod o'r farn bod sylw'r Aelod yn ddifrïol, fodd bynnag, mae hyn yn fater cyfreithiol a byddai angen i'r Achwynydd ofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch honiadau o ddifrïo.

Nid yw tystiolaeth wedi'i darparu i gadarnhau'r gŵyn, ac ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio oni bai bod tystiolaeth weddol gryf i awgrymu y gallai'r aelod dan sylw fod wedi torri'r Cod.

**(2) A oes angen ymchwiliad er budd y cyhoedd**

Nid yw'r ymddygiad y cwynwyd amdano yn bodloni cam cyntaf y prawf, fel y nodir uchod, felly, nid oes angen ystyried ail gam y prawf.

**Canlyniad**

Ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn.

PDC / APW
PANEL DYFARNU CYMRU
ADJUDICATION PANEL FOR WALES

## ADRODDIAD Y DYFARNIAD

**CYFEIRNOD Y TRIBIWNLYS:** APW/001/2025-26/CT

**ATEBYDD:** Y Cyn-gynghorydd Iwan Huws

**AWDURDOD PERTHNASOL:** Cyngor Sir Gwynedd

### 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyfarfu Tribiwnlys Achos a gynullwyd gan Lywydd Panel Dyfarnu Cymru (PDC) i ystyried y cyfeiriad wnaed iddo parthed yr Atebydd uchod.

1.2 Dyfarnodd y Tribiwnlys Achos trwy ystyried y dystiolaeth ddogfennol ar yr 17 Rhagfyr 2025, mewn gwrandawiad a gynhaliwyd ar blatfform cynhadledd fideo.

1.3 Derbyniodd PDC gyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) mewn llythyr dyddiedig 3 Gorffennaf 2025, parthed cwyn wnaed yn erbyn yr Atebydd.

1.4 Yr honiad oedd iddo fethu cydymffurfio â pharagraff 6(1)(a) Côd Ymddygiad Cyngor Sir Gwynedd sy'n dweud: *"Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei ystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu ar eu hawdurdod."*

1.5 Yn gryno, yr honiad oedd i'r cyn-gynghorydd dderbyn Rhybudd Amodol am drosedd o *"Dwyll drwy gamddefnyddio swydd"* drwy geisio twyllo ei gyflogwr, trwy gamddefnyddio arian. Honnid felly, ei bod yn rhesymol tynnu'r casgliad fod rhybudd amodol a chamymddygiad yr Aelod wedi dod â'i swydd fel Aelod â'i Gyngor Sir i anfri, oedd yn awgrymu methiant i gydymffurfio â pharagraff 6(1)(a) o'r Côd.

1.6 Ni chwblhaodd yr Atebydd ffurflen ymateb PDC mewn ymateb i'r honiad. Roedd y sypyn dogfennau a baratowyd i'w hystyried yn cynnwys adroddiad a holl ddogfennaeth gefnogol OGCC gasglwyd ac a ddarparwyd yn sgil yr ymchwiliad; gohebiaeth a dderbyniwyd gan yr Atebydd a'r OGCC parthed yr achos. Ystyriwyd y rhain yn fanwl gan y Tribiwnlys Achos wrth drafod yr achos.

1.7 Cyhoeddwyd Cyfarwyddiadau Rhestru gan y Tribiwnlys Achos ar 24 Tachwedd 2025 yn cynnig cyfle pellach i'r partïon gyfrannu gwybodaeth bellach ynglŷn â phob cam o'r broses ddyfarnu. Y camau perthnasol oedd dyfarnu ar y ffeithiau, dyfarnu a oedd methiant i gydymffurfio â'r Côd Ymddygiad a phenderfynu ar unrhyw gosb berthnasol. Derbyniwyd sylwadau gan yr Atebydd â'r OGCC mewn ymateb.

## 2. MATERION RHAGARWEINIOL

2.1 Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb gan yr Atebydd i'r cyfeiriad o fewn yr amser dynodedig ond derbyniwyd ebost dyddiedig 4 Medi 2025 ganddo'n cynnig sylwadau arno. Gan nad oedd o fewn y terfynau amser priodol, penderfynodd y Tribiwnlys Achos na allai gael ei dderbyn fel ymateb i'r cyfeiriad ond y byddai'r ebost yn cael ei ganiatáu fel sylwadau'r Ymatebydd i'w hystyried yn y gwrandawiad terfynol.

2.2 Roedd yr ebost yn cynnig eglurhad am fethiant yr Atebydd i ymateb o fewn y terfynau amser ac yn ymddiheuro am yr ymddygiad.

## 3. ADRODDIAD OGCC.

3.1 Paratowyd adroddiad OGCC yn dilyn cwyn iddi fod yr Atebydd wedi methu cydymffurfio â'r Côd Ymddygiad. Yr honiad oedd iddo dorri Côd Ymddygiad Cyngor Sir Gwynedd trwy dderbyn Rhybudd Amodol am drosedd o *"Dwyll drwy gamddefnyddio swydd"* drwy geisio twyllo ei gyflogwr, trwy gamddefnyddio arian.

3.2 Dyddiad y drosedd oedd mis Gorffennaf 2023. Derbyniodd yr Atebydd y Rhybudd Amodol ar 19 Rhagfyr 2023. Yr amod oedd fod yr Atebydd yn ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad i'w gyflogwr, sef Cyngor Sir Ynys Môn. Roedd yr Atebydd wedi ymddiswyddo o'i gyflogaeth gyda Chyngor Sir Ynys Môn ar 15 Medi 2023. Anfonodd lythyr o esboniad at ei gyflogwr dyddiedig 1 Tachwedd 2023. Casgliad yr adroddiad oedd fod camymddwyn y cyn-Aelod a'r Rhybudd Amodol a dderbyniodd yn faterion difrifol, oedd yn disgyn yn fyr o'r safonau disgwyliedig gan Aelod.

3.3 Nododd yr adroddiad fod yr Atebydd, yn ystod cyfnod yr ymchwiliad, yn dal nifer o swyddi gwahanol o fewn Cyngor Sir Gwynedd, gan gynnwys bod yn aelod o Bwyllgor

Craffu ar Addysg ac Economi a Phwyllgor Pensiynau y Cyngor. Roedd yr OGCC o’r farn y gallai aelod o'r cyhoedd gwestiynu'n rhesymol sut y gallai aelod ddal swyddi o'r fath, ar ôl dangos methiant o ran uniondeb ac ymgais i fod yn anonest tuag at gyllid cyhoeddus, ei hun.

3.4 Casgliad yr adroddiad oedd fod yr Atebydd wedi dangos diffyg mewnwelediad i effaith ei ymddygiad troseddol ar enw da’r Cyngor Perthnasol. Er fod y drosedd wedi digwydd yng nghyflogaeth yr Atebydd gydag awdurdod cyfagos gwahanol, nodai’r adroddiad natur a difrifoldeb y drosedd a arweiniodd at dderbyn rhybudd troseddol am dwyll trwy gamddefnyddio swydd ac y gellid ystyried yn rhesymol fod y rhybudd a’r camymddygiad wedi dod â’i swydd fel aelod a’i Gyngor Sir i anfri. Er na chofnodwyd yr hanes yn y cyfryngau, roedd y digwyddiad mor ddifrifol fel y byddai’r stori wedi dwyn anfri ar ei swydd fel cynghorydd a’r Cyngor petai wedi dod yn hysbys.

3.5 Er i’r Atebydd fynegi ei edifeirwch am y drosedd a’i ymddygiad i OGCC, casgliad yr ymchwiliad a’r adroddiad oedd y gellid ystyried yn rhesymol fod Rhybudd Amodol a chamymddygiad yr Aelod wedi dod â'i swydd fel aelod a'i Gyngor Sir i anfri ac felly'n awgrymu torri paragraff 6(1)(a) o'r Côd Ymddygiad.

## 4. CANFYDDIAD Y FFEITHIAU

### Ffeithiau diamheuol

4.1 Nododd y Tribiwnlys Achos y ffeithiau perthnasol diamheuol canlynol;

4.1.1 Llofnododd yr Atebydd ddatganiad derbyn swydd fel Cynghorydd Sir ac ymrwymiad i gydymffurfio â'r Côd Ymddygiad, ar 10 Mai 2022.

4.1.2 Cwblhaodd yr Atebydd hyfforddiant Côd Ymddygiad ar 10 Mai 2022 a 21 Medi 2022.

4.1.3. Roedd yr Atebydd hefyd yn Aelod o Gyngor Cymuned Y Felinheli, ar ôl cael ei gyfethol yn 2018. Ymddiswyddodd o'i swydd ym mis Medi 2023.

4.1.4 Roedd yr Atebydd wedi bod yn gweithio i Gyngor Sir Ynys Môn fel Uwch Swyddog Morwrol, ers 2011, hyd nes iddo ymddiswyddo ym mis Medi 2023.

4.1.5 Cyfeiriwyd cwmni cynhyrchu at yr Atebydd ar 30 Mehefin 2023, i ofyn am logi pier Biwmares am ddau ddiwrnod. Dywedodd y Cwmni y byddai'n talu ffi *"gyfan gwbl"* i gwmpasu'r holl gostau, gan gynnwys parcio.

4.1.6 Cytunodd yr Atebydd ar ffi o £3,000, gan gynnwys TAW, a dywedodd y byddai hyn yn talu'r holl gostau. Gofynnodd yr Atebydd i'r taliad gael ei wneud drwy drosglwyddiad banc.

4.1.7 Ar 10 Gorffennaf 2023, anfonodd yr Atebydd anfoneb at y Cwmni drwy e-bost am gost y llogi. Atododd dderbyneb angorfa, yn cynnwys dogfen wedi'i hysgrifennu â llaw â manylion ynghylch llogi'r pier a'i fanylion banc personol, fel y lle y dylid gwneud y taliad iddo.

4.1.8 Ar 13 Gorffennaf 2023, anfonodd y Cwmni archeb brynu i gyfeiriad e-bost Cyngor Sir Ynys Môn yr Atebydd.

4.1.9 Ar 24 Gorffennaf 2023, anfonodd yr Atebydd e-bost erlid i'r Cwmni i dalu'r ffi. Roedd yr e-bost hwn eto wedi atodi'r dderbyneb angori gyda'i fanylion banc personol, wedi'u hysgrifennu â llaw, wedi'u cynnwys.

4.1.10 Cafodd y ddau e-bost, dyddiedig 10 Gorffennaf a 24 Gorffennaf 2023, eu dileu gan yr Atebydd o'i flwch ebost.

4.1.11 Ar 26 Gorffennaf 2023, holodd y Cwmni Adran Gyllid y Cyflogwr am yr anfoneb, a gadarnhaodd fod manylion y taliad yn anghywir.

4.1.12 Cynhaliodd y Cyflogwr ymchwiliadau a chanfuwyd bod manylion y cyfrif banc a oedd wedi'u cynnwys yn yr anfoneb yn eiddo i'r Atebydd.

4.1.13 Oherwydd yr anghysondebau, cafodd yr Atebydd ei wahardd o'i gyflogaeth a chyfeiriwyd y mater at yr Heddlu.

4.1.14 Ymddiswyddodd yr Atebydd o'i swydd gyda Chyngor Sir Ynys Môn ar 15 Medi 2023.

4.1.15 Cafodd yr Atebydd ei gyfweld gan yr Heddlu. Cyfaddefodd yr Atebydd ei fod wedi anfon yr anfoneb wedi'i hysgrifennu â llaw yn gofyn am daliad a chytunodd ei fod wedi cyflawni'r ymgais i dwyllo drwy gamddefnyddio ei swydd. Yn ystod y cyfweliad â Swyddog Ymchwilio’r OGCC, gwnaeth yr Atebydd yr un cyfaddefiad.

4.1.16 Ni chafodd yr Atebydd unrhyw fudd ariannol o'i weithredoedd.

4.1.17 Ar 19 Rhagfyr 2023, rhoddodd yr Heddlu Rybudd Amodol i'r Atebydd am y drosedd o dwyll drwy gamddefnyddio swydd, gyda'r unig amod ei fod yn ysgrifennu llythyr o esboniad at Gyngor Sir Ynys Môn, rhywbeth yr oedd eisoes wedi'i wneud.

**Ffeithiau dadleuol**

4.2 Nid oedd unrhyw ffeithiau dadleuol i’w dyfarnu gan PDC.

## 5. SYLWADAU’R ATEBYDD YN Y CYFWELIAD GYDA OGCC

5.1 Cyfaddefodd yr Atebydd yn y cyfweliad gyda OGCC ei fod wedi cyflawni'r

drosedd ond, yn ei liniariad, dywedodd ei fod yn ceisio mynd i'r afael â phroblem yn ei ffordd ei hun. Honnai fod y cais gan y cwmni wedi gosod pwysau amser arno i gyflawni’r cais. Dywedodd ei fod wedi ymateb ar yr un diwrnod i ddweud y byddai'r swm a gynigiwyd yn talu'r holl gostau a gofynnodd a allai'r Cwmni wneud taliad drwy BACS. Gofynnodd hefyd a allai wneud taliad y ffi ar dderbynneb swyddogol neu, a fyddai angen ei sefydlu fel cyflenwr, oherwydd gallai hyn gymryd peth amser. Esboniodd yr Aelod nad dyma'r broses gywir i'w dilyn gyda'r math hwn o gais. Yn hytrach, yr arfer fyddai codi archeb brynu swyddogol a'i rhoi drwy Adran Gyllid y Cyflogwr, a fyddai wedyn yn darparu anfoneb i’r Cwmni. Dywedodd y byddai'r broses hon wedi cymryd peth amser ac, oherwydd ei fod yn bwriadu bod o gymorth, wrth gyflymu'r broses i'r Cwmni, nad oedd wedi dilyn y broses gywir. Dywedodd ei fod bellach yn gwybod bod hynny'n gamgymeriad.

5.2 Esboniodd yr Aelod mai’r ffioedd y gellid eu codi fyddai £900 am ddiwrnod llawn (gan gynnwys TAW), felly byddai llogi 2 ddiwrnod yn £1,800. Pan ofynnwyd iddo a oedd y £1,200 sy'n weddill i dalu cost parcio, dywedodd yr Aelod:

*“dwi’m yn siŵr be’ di, be’ ’di charges Cyngor Tref Biwmares, be maen nhw yn chargo am ddefnyddio yr ardal yna. Fy mwriad i oedd talu y gyfraniad yna i Gyngor Tref Biwmares ar ôl, ar ôl y penwythnos, ’chos oedd popeth yn cyflymu.”*

Dywedodd yr Aelod ei fod wedi derbyn galwad yn ddiweddarach gan y Cwmni, a oedd yn anhapus nad oedd Cyngor y Dref wedi cael ei ymgynghori ynghylch y parcio cyn iddo gyrraedd. Dywedodd, ar ôl clywed am anfodlonrwydd y Cwmni, ei fod wedi penderfynu y byddai'n talu hanner y ffi i Gyngor y Dref, i dalu costau parcio. I wneud hynny, penderfynodd anfon y dderbynneb angorfa gyda'i fanylion banc ei hun, gyda'r bwriad o gadw hanner yr arian a dalwyd iddo'i hun a thalu'r hanner arall i Gyngor y Dref.

5.3 Dywedodd ei fod wedi cyfaddef i'r Heddlu mai *"ymgais i dwyllo mewn swydd gyhoeddus"* oedd hyn a'i fod wedi defnyddio hen lyfr derbynebau i hwyluso hyn. Cyfaddefodd ei fod wedi anfon anfoneb wedi'i hysgrifennu â llaw at y Cwmni, gyda manylion ei fanc personol, ac nad oedd wedi cyflwyno [yr archeb brynu] i'r Adran Gyllid tan 26 Gorffennaf. Cyfaddefodd yr Aelod ei fod wedi dileu'r negeseuon e-bost o 10 Gorffennaf a 24 Gorffennaf. Cadarnhaodd hefyd, er gwaethaf derbyn archeb brynu gan y Cwmni (a fyddai wedi bod y broses gywir i'w dilyn) ar 13 Gorffennaf, iddo anfon yr e-bost pellach ar 24 Gorffennaf, at y Cwmni, i erlid y taliad i'w gyfrif banc ei hun.

5.4 Pan ofynnwyd iddo esbonio pam ei fod wedi dileu'r negeseuon e-bost, dywedodd yr Aelod:

*"…fuesh i'n dechrau panicio wedyn yn sylweddoli be o'n i 'di wneud ym ac mi gymerodd bod y cwmni wedi ffonio'r adran cyllid, wedyn a'r adran cyllid wedi ffonio y swyddog sydd yn delio efo'r math yma o bethau yn yr adran wedyn mi wnaeth hi ffonio fi yn gofyn am be oedd, be, sut o'n i wedi sortio hyn allan, a wedyn nesh i banicio a nesh i deletio'r e-bost oedd yn cynnwys yr anfoneb i'r cwmni."*

5.5 Yn ystod y cyfweliad, dywedodd yr Aelod, mewn ffordd a allai ymddangos fel gellwair, y dylai fod wedi taflu ei liniadur i'r Menai [culfor sy'n gwahanu Ynys Môn oddi wrth Wynedd], gan na fyddai ei Gyflogwr wedi gallu adfer y negeseuon e-bost a ddilewyd wedyn.

5.6 Ni allai'r Aelod gofio pryd yn gyntaf y cododd y Cyflogwr bryderon gydag ef, ond cofiai fod sgwrs ffôn wedi bod gyda chydweithiwr, pan ddywedodd:

*"nesh i yrru hwnna* [yr archeb brynu - yr oedd y Cwmni wedi'i anfon at yr Aelod ar 13 Gorffennaf], *wedyn i'r swyddog perthnasol yn dweud hwn ydy'r un i ddefnyddio,* [yn gofyn i'r Adran Gyllid a'r Cwmni] *anwybyddwch yr, ym, y llall, felly de* [yr anfoneb wedi'i hysgrifennu â llaw anfonodd at y Cwmni ar 10 Gorffennaf, a'i erlid ar 24 Gorffennaf]."

5.7 Dywedodd nad oedd yn ymwybodol y byddai derbyn rhybudd am dwyll drwy gamddefnyddio swydd, yn gyfaddefiad o euogrwydd. Fodd bynnag, derbyniodd ei fod yn euog o'r drosedd. Dywedodd ei fod wedi derbyn y rhybudd a dewis ymddiswyddo oherwydd, ar y pryd, nad oedd am fynd trwy ymchwiliad mewnol. Derbyniodd ei fod wedi gwneud camgymeriad difrifol a dywedodd ei fod am symud ymlaen o'r digwyddiad. Dywedodd ei fod yn credu, drwy ymddiswyddo pan wnaeth, ei fod wedi gwneud y peth mwyaf anrhydeddus. Dywedodd fod y cywilydd o wynebu ei gydweithwyr, a'r euogrwydd dros yr hyn a wnaeth, wedi ei arwain i gydweithredu â'r Heddlu.

5.8 Cadarnhaodd na chafodd ei arestio gan yr Heddlu, ac na chafodd unrhyw fudd ariannol o'i weithredoedd. Dywedodd nad oedd ganddo unrhyw resymau ariannol dros gyflawni'r twyll ac nad oedd wedi gwneud unrhyw beth tebyg o'r blaen. Cyfeiriodd at broblemau'n ei fywyd personol ond ni allai roi rheswm penodol pam y gweithredodd felly, heblaw ei fod, yn ei ymgais i geisio datrys y broblem o geisio cadw Cyngor Tref Biwmares yn fodlon a helpu'r Cwmni Ffilmio, wedi cyflawni ymgais i dwyllo.

5.9 Dywedodd yr Atebydd, o ganlyniad i'r mater hwn, ei fod wedi ceisio cymorth meddygol ar gyfer straen ac wedi teimlo'n bryderus ynghylch y potensial i fanylion amdano gael eu datgelu a'r cyhoeddusrwydd drwg y gallai ei ddenu. Dywedodd ei fod wedi bod yn agos at gael cyfle i ymuno â Chabinet y Cyngor Sir, ond penderfynodd beidio â gwneud hynny, o ystyried y sefyllfa.

5.10 Dywedodd ei fod wedi ystyried ymddiswyddo o'r Cyngor Sir, ac efallai y byddai'n gwneud hynny yn y dyfodol, yn dibynnu ar benderfyniad OGCC. Nid oedd am fynd trwy wrandawiad Pwyllgor Safonau na mynd gerbron Panel Dyfarnu Cymru.

5.11 Mynegodd yr Atebydd ei edifeirwch am ei weithredoedd ac ni allai eu hesbonio. Dywedodd, pe bai wedi gallu ailadrodd y digwyddiadau, y byddai wedi mynd trwy'r broses arferol o gyflwyno'r archeb brynu swyddogol heb geisio helpu. Dywedodd ei fod wedi bod yn edrych ymlaen at ddatblygu ei yrfa wleidyddol a'i fod yn gobeithio y gall wneud hynny o hyd. Roedd yn difaru'r digwyddiad cyfan, a'r effaith y mae wedi'i chael arno. Dywedodd ei fod wedi cydweithredu'n llawn â'r Cyflogwr a'r Heddlu ac nad oedd am achosi mwy o gywilydd i unrhyw un arall. Dywedodd yn y cyfweliad:

*"Ie, yn amlwg dwi 'di bod dan dipyn o straen, yn poeni bob dydd bod yna rywbeth am ddod allan yn gyhoeddus a finna yn gynghorydd sir 'lly, ym does na ddim, does na ddim byd wedi dod allan hyd y gwyddwn i, dach chi'n gwybod, hynny, dydy o ddim yn gyhoeddus yn fy mhentre, dydy o ddim yn embaras i mi yn fy ward, ym ond mae'n amlwg dwi'n ymwybodol bod yna un neu ddau o bobl yn amlwg yn Ynys Môn oedd yn gydweithiwyr ac yn ffrindia efo fi a wedyn trosglwyddo i Gyngor Sir Gwynedd mae'r arweinydd, mae ... y Swyddog Monitro, mae ei Ddirprwy o sydd wedi gwneud yr ymchwiliad yn ymwybodol."*

5.12 Dywedodd ei fod yn deall paragraff (6)(1)(a) y Côd a bod safonau uchel yn ofynol gan rywun sy'n dal swydd gyhoeddus. Dywedodd ei fod am bwysleisio, er ei fod yn Gynghorydd Sir Gwynedd ar y pryd, ei fod yn cael ei gyflogi gan Gyngor Sir Ynys Môn fel Swyddog ac yn gweithredu yn y swyddogaeth honno ar y pryd. Dywedodd ei fod yn teimlo y gallai ei ymddygiad fod wedi dwyn anfri ar Gyngor Sir Ynys Môn, ac ar ei swydd fel cynghorydd.

5.13 Dywedodd yr Atebydd ei fod yn mwynhau bod yn Gynghorydd Sir ac yn teimlo bod y digwyddiad hwn yn ei atal. Roedd yn gobeithio na fyddai pethau'n mynd mor bell fel bod angen iddo ymddiswyddo.

5.14 Dywedodd yr Atebydd nad oedd wedi ystyried cyfeirio ei hun at Swyddfa OGCC ond ei fod yn derbyn y dylai fod wedi gwneud hynny, mae'n debyg. Dywedodd, fodd bynnag, ei fod wedi adrodd y digwyddiad i Arweinydd y Cyngor ar y pryd.

**Sylwadau'r Atebydd yn yr ebost 4 Medi 2025**

5.15 Yn ei ebost i PDC dyddiedig 4 Medi 2025, dywedodd yr Atebydd ei fod yn

derbyn casgliadau'r OGCC ac yn diolch am yr ymchwiliad trylwyr. Roedd yn cadarnhau iddo fod yn Gadeirydd Cyngor Cymuned y Felinheli tan Medi 2022. Gofynnodd am ddealltwriaeth a thrugaredd PDC *"...o ystyried cyd-destun penodol ei amgylchiadu personol ar adeg y drosedd.."* ynghyd â'r effaith gaiff ei wahardd o'i waith ar y gwaith achos gyda'i etholwyr. Yr oedd yn ymddiheuro'n llaes am ei ymddygiad.

5.16 Anfonodd yr Atebydd ebost pellach dyddiedig 13 Hydref 2025 yn cywiro'r cyfeiriad at y dyddiad *"2022"* yn ei ebost blaenorol i *"2023"* ac yn cadarnhau ei fod bellach wedi ymddiswyddo fel Cynghorydd Sir ac yn dweud fod y cyfryngau yng Nghymru wedi rhedeg stori negyddol iawn amdano ar y dydd Gwener blaenorol ac fod ei enw da bellach wedi'i bardduo.

## 6. SYLWADAU'R OGCC

6.1 Nododd yr OGCC yn ei sylwadau pellach fod yr Atebydd wedi dal nifer o swyddi gwahanol yn y Cyngor Perthnasol, gan gynnwys bod yn aelod o Bwyllgor Craffu ar Addysg ac Economi a'r Pwyllgor Pensiynau. Yr oedd o'r farn y gallai aelod o'r cyhoedd gwestiynu'n rhesymol sut y gallai aelod ddal swyddi o'r fath, ar ôl dangos methiant o ran uniondeb ac ymgais i fod yn anonest tuag at gyllid cyhoeddus, ei hun.

6.2 Er gwaethaf ei edifeirwch, nododd yr OGCC fod yr Atebydd wedi dangos diffyg mewnwelediad i effaith ei ymddygiad troseddol ar enw da'r Cyngor Perthnasol. Mae canllawiau'r OGCC yn nodi, ei bod yn ystyried ymddygiad aelod o safbwynt aelod rhesymol o'r cyhoedd. Er bod yr ymddygiad wedi digwydd yng nghyflogaeth yr Atebydd gydag awdurdod cyfagos gwahanol, nododd natur a difrifoldeb y drosedd, a arweiniodd at rybudd troseddol am dwyll trwy gamddefnyddio swydd. Yr oedd o'r farn y gellid ystyried yn rhesymol fod Rhybudd Amodol a chamymddygiad yr Atebydd wedi dod â'i swydd fel aelod a'i Gyngor Perthnasol i anfri ac felly mae'n awgrymu torri paragraff 6(1)(a) o'r Côd Ymddygiad.

## 7. TRAFODAETHAU'R TRIBIWNLYS ACHOS

7.1 Nododd y Tribiwnlys Achos y ffeithiau canlynol:

7.1.1 Hysbyswyd yr Atebydd o ymchwiliad OGCC ar 24 Mai 2024.

7.1.2 Yn sgil yr ymchwiliad, derbyniodd y Swyddog Ymchwilio ddogfennau gan y Cyngor Perthnasol a chan yr Heddlu.

7.1.3 Yn ystod yr ymchwiliad, gwirfoddolodd yr Atebydd i gael ei gyfweld gan y Swyddog Ymchwilio ac yr oedd trawsgrifiad o'r cyfweliad hwnnw yn y sypyn tystiolaeth oedd gerbron y Tribiwnlys Achos.

7.1.4 Yn dilyn y cyfweliad darparodd yr Atebydd chwaneg o dystiolaeth ar gyfer y Swyddog Ymchwilio, oedd hefyd o fewn y sypyn dogfennau gerbron y Tribiwnlys Achos.

7.2 Nododd y Tribiwnlys Achos hefyd y digwyddiadau canlynol:

7.2.1 Gwaharddwyd yr Atebydd o'i swydd gan Gyngor Sir Ynys Môn drwy lythyr a dderbyniwyd gan yr Atebydd tua'r 6 Awst 2023.

7.2.2 Ar 14 Medi, ysgrifennodd yr heddlu at yr Atebydd yn ei wahodd am gyfweliad gwirfoddol yn ymwneud â'r drosedd o *"dwyll drwy gamddefnyddio swydd"*.

7.2.3 Ar 15 Medi 2023, ymddiswyddodd yr Atebydd o'i swydd gyda Chyngor Sir Ynys Môn.

7.2.5 Ar 4 Hydref 2023, mynychodd yr Atebydd gyfweliad gwirfoddol gyda'r heddlu lle bu iddo gyfaddef yn llwyr i'r drosedd o geisio twyllo drwy gamddefnyddio'i swydd ond nad oedd wedi derbyn unrhyw daliad yn deillio o'r drosedd.

7.2.6 Ar 19 Rhagfyr 2023, rhoddodd yr heddlu Rybudd Amodol i'r Atebydd am y drosedd , ar yr amod ei fod i ysgrifennu llythyr o esboniad i'w gyflogwr. Cofnodwyd y rhybudd a'r drosedd dyddiedig 3 Gorffennaf 2023 fel a ganlyn gan yr heddlu:

"*Twyll drwy gamddefnyddio swydd, sef Uwch Swyddog Morwrol, lle'r oedd disgwyl i chi ddiogelu, neu beidio â gweithredu yn erbyn, buddiannau ariannol Cyngor Ynys Môn, gwnaethoch gamddefnyddio'r swydd honno'n anonest gan fwriadu felly achosi colled o £2,500 o ffioedd Angorfa gan gwmni ffilm, yn groes i adrannau 1 a 4 o Ddeddf Twyll 2006."*

7.2.7 Roedd yr Atebydd eisoes wedi ysgrifennu at ei gyflogwr lythyr dyddiedig 1 Tachwedd 2023 yn ymddiheuro am ei ymddygiad. Roedd wedi paratoi'r llythyr yn dilyn y cyfweliad gan yr heddlu ac yr oedd yr heddlu wedi gweld drafft ohono ar 19 Hydref 2023, cyn iddo gael ei anfon i'r cyflogwr.

7.2.8 Roedd yr Atebydd, yn ystod cyfnod yr ymchwiliad gan yr OGCC yn dal nifer o swyddi gwahanol yn y Cyngor Perthnasol, gan gynnwys bod yn aelod o Bwyllgor Craffu ar Addysg ac Economi a Phwyllgor Pensiynau Cyngor Sir Gwynedd.

7.2.9 Ni hysbysodd yr Atebydd y Swyddog Monitro ynglŷn â'i Rybudd Amodol. Hysbyswyd y Swyddog Monitro ar 26 Ionawr 2024 gan Arweinydd Grŵp Plaid Cymru.

7.2.10 Ar 9 Chwefror 2024, cysylltodd y Swyddog Monitro'n uniongyrchol gyda'r

Atebydd trwy ebost i geisio cadarnhad ffurfiol o’r ffeithiau.

7.2.11 Ni chafwyd y cadarnhad hwnnw nes i’r Atebydd ebostio ar 22 Chwefror 2024 gyda’r manylion. Yn yr ebost hwnnw, cadarnhaodd yr Atebydd ei fod wedi ymddiswyddo o’i swydd ar 15 Medi 2023 ond ei fod ar fin ymddeol o Gyngor Sir Ynys Môn bryd hynny, sut bynnag.

7.2.12 Nid oedd yr Atebydd wedi ystyried cyfeirio ei hun at OGCC.

7.2.13 Cadarnhaodd y Swyddog Monitro i’r Atebydd iddo gyfeirio’r mater at OGCC ar 29 Chwefror 2024.

7.2.14 Ar 24 Mai 2024, cadarnhaodd OGCC ei bod wedi penderfynu ymchwilio i’r gŵyn.

7.2.15 Ar 13 Ionawr 2025, cafodd yr Atebydd ei gyfweld gan Swyddog Ymchwilio OGCC.

7.2.16 Ar 3 Gorffennaf 2025, cyfeiriodd OGCC gwyn wnaed yn erbyn yr Atebydd i PDC. Yr honiad oedd iddo fethu cydymffurfio â pharagraff 6(1)(a) Côd Ymddygiad Cyngor Sir Gwynedd sy’n dweud: *6.—(1)Rhaid i chi — (a) peidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod*;”

7.2.17 Ar 30 Gorffennaf 2025, anfonodd PDC gopi o’r cyfeiriad at yr Atebydd gan wahodd ei ymateb i’r cyfeiriad o fewn 21 diwrnod.

7.2.18 Cyflwynodd yr Atebydd ei ymddiswyddiad fel aelod o Gyngor Sir Gwynedd trwy ebost dyddiedig 18 Medi 2025.

## 8. CANFYDDIADAU’R TRIBIWNLYS ACHOS

8.1 Mae hwn yn achos cymharol anghyffredin gan nad oes unrhyw ffeithiau dadleuol a dim ond un digwyddiad dan ystyriaeth: sef ymddygiad yr Atebydd ym mis Mehefin a Gorffennaf 2023 yng nghyd-destun ei swydd fel Uwch Swyddog Morwrol yn gyflogedig gan Gyngor Sir Ynys Môn.

8.2 Wrth ystyried yr ymddygiad mae’r Tribiwnlys Achos wedi dwyn i gof y darpariaethau perthnasol yn y cyd-destun hwn.

8.3 Mae’n ofynnol dan Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, fod cynghorau lleol yn mabwysiadu Côd Ymddygiad ar gyfer aelodau sy’n ymgorffori darpariaethau Côd Enghreifftiol sydd wedi’u cynnwys mewn gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru.

8.4 Mae’n ofynol i aelodau cynghorau lofnodi ymrwymiad y byddant, wrth gyflawni eu swyddogaethau’n cydymffurfio â chôd ymddygiad y Cyngor. Rhoddodd yr Atebydd ymrwymiad felly ar 10 Mai 2022. Mynychodd yr aelod ddau gwrs hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad ar 10 Mai a 21 Medi 2022.

8.5 Mae’r Côd Ymddygiad yn ymgorffori darpariaethau gorfodol o Gôd ymddygiad Enghreifftiol Cymru sy’n gyson â’r deg egwyddor ymddygiad sy’n deillio o Egwyddorion Nolan ar gyfer Bywyd Cyhoeddus.

8.6 Mae Rhan II o’r Côd yn nodi bod rhaid i aelodau gydymffurfio â’r côd mewn perthynas ag ymddygiad a nodwyd ym mharagraffau 6(1)(a) a 7, bob amser ac mewn unrhyw gapasiti.

8.7 Y ddarpariaeth berthnasol o’r côd yn yr achos hwn yw paragraff 6(1)(a):
“*6.—(1) Rhaid i chi —*
*(a) peidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod;*

8.8 Fel rheol byddai’r Tribiwnlys Achos hefyd yn ystyried Erthygl 10 o’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a’r hawl i fynegi barn, ond ni chyfyd unrhyw gwestiwn ynglŷn a’r hawl honno yn yr achos hwn.

**Canllawiau’r OGCC**

8.9 Mae OGCC wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer cynghorwyr ac ynddynt mae’n dweud:

“*2.33 Bydd ymddygiad anonest a thwyll yn dwyn anfri ar eich Cyngor, yn ogystal ag ymddygiad sy'n arwain at gollfarn droseddol, yn enwedig os yw'n cynnwys ymddygiad anonest, bygythiol neu dreisgar, hyd yn oed os yw'r ymddygiad yn digwydd yn eich bywyd preifat*.”

8.10 Yn yr achos hwn, ar y sail fod yr Atebydd wedi cyfaddef i drosedd o anonestrwydd a thwyll ac nad oedd yn anghytuno a chasgliadau’r OGCC na chwaith yn anghytuno â’r ffeithiau a gyflwynwyd gan yr OGCC, casglodd y Tribiwnlys Achos yn unfryd fod ymddygiad yr Atebydd wedi torri paragraff 6(1)(a) o’r Côd.

8.11 Er fod y drosedd wedi digwydd yng nghyd-destun ei swydd fel Uwch Swyddog Morwrol o Gyngor Sir Ynys Môn, yr oedd ar y pryd yn aelod o'r Cyngor Perthnasol ac yn dal swyddi cyfrifol iawn o fewn y Cyngor hwnnw. Yr oedd y ffaith iddo dorri'r gyfraith a cheisio twyllo ei gyflogwr – oedd yn awdurdod cyhoeddus a cheisio dwyn arian fyddai'n ddyledus i gyngor tref Biwmares ac i Gyngor Sir Ynys Môn ei hun, yn golygu fod y drosedd yn dangos diffyg parch tuag at y cyhoedd ar sawl lefel.

8.12 Digwyddodd yr ymgais i dwyllo dros nifer o ddyddiau ac ymddengys fod elfen o ragfwriad yn y paratoi. Er mai eglurhad yr Atebydd oedd ei fod yn gorfod gwneud penderfyniad dan bwysau amser ac yn ceisio sicrhau budd i'r Cyngor Tref ac i'r cwmni ffilmio, roedd wedi holi'r cwmni a allent dalu'r ffi trwy BACS ar y 30 Mehefin. Ar ddydd Llun 10 Gorffennaf, anfonodd dderbynneb wedi'i hysgrifennu â llaw, yn cynnwys ei fanylion banc ei hun, i'r cwmni am y swm o £3000. Roedd y dudalen lle'r ysgrifennodd ei fanylion banc ei hun wedi'i thorri o ganol llyfr Anfonebau Angori Cyngor Sir Ynys Môn a'r tudalennau carbon cysylltiedig hefyd wedi'u torri allan, fel na fyddai posibl gweld fod y dudalen ar goll oni bai fod rhywun yn sylwi fod y rhifau'n anghyson. Ar 24 Gorffennaf, ebostiodd yr Atebydd y cwmni yn hawlio'r taliad ac yn atodi copi arall o'r anfoneb. Cafodd yr ebyst eu dileu o gyfrif yr Atebydd a bu'n rhaid i'r adran TG eu hadfer o'r system wedi iddo gael ei wahardd o'i waith. Dim ond wedi i'r cwmni wneud ymholiadau ynglŷn â chywirdeb yr anfoneb ysgrifennwyd â llaw, y bu i'r Atebydd anfon yr archeb brynu i'r swyddog ariannol yng Nghyngor Sir Ynys Môn.

8.13 Daethom i'r casgliad nad rhyw foment wan o ymddwyn yn wallgof oedd hon, ond cyfres o ddigwyddiadau lle'r oedd elfen o gynllunio a rhagfwriad, yn cynnwys sicrhau y gallai'r cwmni dalu trwy BACS; sicrhau nad oedd yn amlwg fod y dudalen anfoneb ar goll o'r llyfr a dileu'r ebyst o'i system ei hun. Bu'r ymgais yn weithredol am gyfnod o tua tair wythnos ac yn ystod y cyfnod hwnnw, byddai digon o gyfleon i'r Atebydd fod wedi tynnu'n ôl a threfnu i'r taliad gael ei wneud yn briodol i i Gyngor Sir Ynys Môn.

8.14 Roedd hon yn ymgais ddifrifol o geisio twyllo, yn rhinwedd ei swydd o fewn corff cyhoeddus, yn drosedd ac felly'n dwyn anfri ar yr Atebydd ei hun. Er iddo geisio cadw'r drosedd a'r Rhybudd Amodol yn gyfrinachol, mae difrifoldeb y drosedd yn golygu, er mai yn ei gapasiti personol fel swyddog y digwyddodd, ei bod yn dwyn anfri pellach arno fel aelod ac ar y Cyngor Perthnasol.

8.15 Nodasom gyda diddordeb mai dim ond ar 16 Hydref 2025 yr honnodd yr Atebydd i'w enw da gael ei bardduo. Roedd nifer o fewn Cyngor Sir Ynys Môn yn gwybod am ei drosedd, ynghyd â Heddlu Gogledd Cymru a rhai yng Nghyngor Gwynedd. Ei brif ddiddordeb yn y broses hon oedd cyfaddef y drosedd a symud ymlaen. Fe ddywedodd hynny'n y cyfweliad gyda OGCC ac mae wedi gwneud cymaint ag a allai i sicrhau nad oedd y drosedd yn dod i'r amlwg. Roedd ei sylwadau yn y cyfweliad gyda'r OGCC y

dylai fod wedi taflu'i liniadur i'r Fenai, hyd yn oed os mai joc oedd y bwriad, yn anaddas ac yn dangos diffyg dealltwriaeth o ddifrifoldeb y sefyllfa. Mae'n awgrymu mai ceisio celu'r drosedd a symud ymlaen fel petai hi heb ddigwydd oedd y nod. Roedd ei sylw yng nghyfweliad yr OGCC, yn canmol y ffaith nad oedd y stori wedi torri'n gyhoeddus yn ei ardal, gan y byddai hynny'n achosi *"embaras"* iddo'n adlewyrchu eto, ddiffyg dealltwriaeth o ddifrifoldeb y drosedd gyflawnodd.

8.16 Mae'n drawiadol na fu i'r Atebydd ymddiswyddo fel aelod o Gyngor Gwynedd tan fis Medi 2025, pan oedd yr achos dan ystyriaeth gan y Tribiwnlys Achos ac iddo sôn yn ystod ei gyfweliad gyda OGCC mai ei fwriad oedd ymddeol o'i waith yng Nghyngor Sir Ynys Môn beth bynnag, er mwyn canolbwyntio ar yrfa wleidyddol. Mae'n amlwg ei fod wedi bwriadu parhau'n aelod o'r Cyngor Sir, er gwaethaf ei ymddygiad ac i bob golwg, heb gydnabod difrifoldeb y drosedd, ond ceisio'i chuddio rhag ei etholwyr. Er ei fod yn ymddiheuro ac yn gofyn am drugaredd, ei brif amcan oedd cadw'r cyfan yn ddistaw a sicrhau na fyddai'i enw da na'i yrfa wleidyddol yn cael eu heffeithio gan ei ymddygiad. Awgryma hynny nad yw'r Atebydd ag unrhyw wir fewnwelediad i ddifrifoldeb ei ymddygiad, na chwaith edifeirwch am yr hyn a wnaeth ond yn hytrach, ei fod yn gresynu iddo gael ei ddal a chydnabod ei drosedd. Yn bennaf, nid yw ei ymddygiad yn adlewyrchu fod ganddo ddealltwriaeth lawn o'r disgwyliadau uchel o ymddygiad da osodir ar ddeiliad swyddi cyhoeddus.

8.17 Er ei fod yn honni nad oedd yn gwerthfawrogi y byddai derbyn Rhybudd Amodol yn golygu ei fod yn cydnabod y drosedd, mae'r papurau a ddarperir gan yr heddlu mewn achosion o'r fath ac yn yr achos hwn yn benodol, gan i'r Tribiwnlys Achos dderbyn copiau'n y dystiolaeth, yn cadarnhau i'r troseddwr union statws cyfaddefiad a chanlyniad derbyn Rhybudd Amodol. Mae'n amlwg hefyd o'r dogfennau fod gan yr Atebydd gynrychiolydd cyfreithiol ar y pryd ac fe fyddai'r cynrychiolydd hwnnw wedi egluro'r oblygiadau iddo. Ni allwn felly, dderbyn nad oedd yr Atebydd yn gwerthfawrogi'r hyn yr oedd yn wneud trwy cyfaddef i'r drosedd gyda'r heddlu.

8.18 Mae Egwyddorion Nolan, fel y'i hymestynnwyd yn yr egwyddorion sy'n llywodraethu ymddygiad aelodau etholedig yng Nghymru'n sail i'r Côd Ymddygiad ac yn tanlinellu pwysigrwydd uniondeb a phriodoldeb, y dyletswydd i gynnal y gyfraith ac arwain trwy esiampl i hybu hyder y cyhoedd yn eu swydd a'u hawdurdod. Mae'r Tribiwnlys Achos o'r farn i'r Atebydd fethu â chynnal yr egwyddorion hyn.

8.19 I gloi felly, penderfynodd y Tribiwnlys Achos y gellid yn rhesymol gasglu fod yr ymddygiad y cyfaddefodd yr Atebydd iddo yn ddigon difrifol i ddwyn ei swydd a'i awdurdod i anfri. Roedd wedi cyfaddef i drosedd ddifrifol lle ceisiodd ddefnyddio'i swydd yn gweithio i awdurdod cyhoeddus i ddwyn arian oedd yn ddyledus i'r awdurdod hwnnw a Chyngor Tref Biwmares er ei les ei hun, ac wedi derbyn Rhybudd Amodol gan yr Heddlu ynglŷn â'r drosedd honno.

## 9. CANFYDDIADAU YNGLŶN Â'R GOSB

9.1 Rhoddodd y Cyfarwyddiadau Rhestru gyfle i'r partïon wneud sylwadau pellach ynglŷn â'r gosb berthnasol petai'r Tribiwnlys Achos yn penderfynu fod torri'r Côd wedi digwydd ac fod angen ystyried gweithredu angenrheidiol.

9.2 Cynigiodd yr OGCC y sylwadau mewn ymateb i'r cais am sylwadau pellach, yn dilyn cyhoeddi'r cyfarwyddiadau rhestru. Wrth gyfeirio at y gweithredu angenrheidiol petai'r Tribiwnlys Achos yn penderfynu fod yr Atebydd wedi torri'r Côd Ymddygiad, gosododd restr o'r ffactorau perthnasol i'w hystyried, gan atgoffa'r Tribiwnlys mai pwrpas y fframwaith safonau moesegol yw hyrwyddo safonau uchel ymhlith aelodau cynghorau yng Nghymru a chynnal hyder y cyhoedd mewn democratiaeth leol.

9.3 Cydnabu'r OGCC mai mater i'r Tribiwnlys Achos yw natur unrhyw gosb, ar ôl ystyried ffeithiau'r achos a difrifoldeb torri'r côd, ond er mwyn cynnig cymorth drwy'i sylwadau, gosododd restr o ffactorau lliniarol a ffactorau gwaethygol oedd wedi'u nodi yn ystod yr ymchwiliad a'r adroddiad. Casgliad OGCC oedd *"...bod natur y toriad yn ddifrifol, a byddai sancsiwn yn deg, yn gymesur ac er budd y cyhoedd i gynnal hyder mewn democratiaeth leol."*

9.4 Gofynnodd yr Atebydd am ddealltwriaeth a thrugaredd y Tribiwnlys Achos gan ystyried ei amgylchiadau personol ar adeg y drosedd ynghyd â'r effaith gawsai ei wahardd ar ei waith achos dros ei etholwyr.

## 10. CANFYDDIADAU'R TRIBIWNLYS ACHOS AR Y GOSB

10.1 Penderfynodd y Tribiwnlys Achos fel a ganlyn ynglŷn â'r gosb briodol:

10.1.1 Ystyriodd y Tribiwnlys Achos yr holl ddogfennau, y ffeithiau a'r sylwadau a dderbyniwyd yn yr achos. Nodwyd fod yr Atebydd wedi ceisio cyfeirio at ei amgylchiadau personol ar adeg y drosedd ond heb gynnig digon o fanylion i esbonio pam y byddai hynny wedi ei arwain i droseddu. Roedd hefyd yn honni iddo gael cyngor meddygol tua'r adeg y bu iddo gael ei gyfweld gan yr heddlu, ond ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth feddygol i'r Tribiwnlys ei ystyried yn egluro pam fod hynny'n angenrheidiol.

10.1.2 Mae'r Tribiwnlys Achos wedi ystyried Canllaw ar Gosbau cyfredol PDC.

Atgoffodd ei hun o gynnwys paragraff 44 a 47 yn arbennig:

"*Budd y cyhoedd*
*44. Prif ddiben y drefn gosbau yw cynnal safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus a chadw hyder mewn democratiaeth leol. Dylai tribiwnlysoedd adolygu'r gosb a ddewiswyd ganddynt drwy ei chymharu â phenderfyniadau blaenorol Panel Dyfarnu Cymru ac ystyried gwerth y gosb a ddewiswyd o ran effaith ataliol ar gynghorwyr yn gyffredinol a'i heffaith o ran hygrededd ymhlith y cyhoedd yn ehangach. Os yw'r ffeithiau a arweiniodd at dorri'r cod yn golygu bod yr aelod yn gwbl anaddas ar gyfer swydd gyhoeddus, yna mae'n debyg mai anghymhwyso, yn hytrach nag atal dros dro, fydd y gosb fwyaf priodol."*

Ac hefyd:

"*Cyn aelodau*
*47.Mewn amgylchiadau lle byddai'r tribiwnlys fel arfer yn rhoi cosb ond nad yw'r Ymatebydd yn aelod mwyach, gallai anghymhwysiad byr fod yn briodol (dim ond mewn tribiwnlysoedd achos y gall hyn ddigwydd). Bydd hyn yn sicrhau nad yw'r Ymatebydd yn gallu dychwelyd i swydd gyhoeddus, er enghraifft drwy gael ei gyfethol, cyn diwedd y cyfnod o atal dros dro a fyddai wedi cael ei ddefnyddio pe na bai wedi ymddiswyddo neu heb gael ei ailethol."*

10.1.3 Hysbysodd Cofrestrydd y Tribiwnlys i'r Swyddog Monitro gadarnhau na fu cwyn flaenorol yn erbyn yr Atebydd yn ystod ei gyfnod fel aelod.

10.1.4 Man cychwyn y Tribiwnlys wrth ystyried y gosb berthnasol ydi difrifoldeb y toriad. Mae paragraff 35 o'r canllaw yn dweud:

"*35. Bydd y tribiwnlys yn asesu difrifoldeb gan gyfeirio'n benodol at:*

- *natur a graddau'r tor-amod, a nifer yr achosion o dorri'r Côd;*
- *beiusrwydd yr aelod, ei fwriadau wrth dorri'r Côd, ac unrhyw achosion blaenorol o dorri'r Côd;*
- *gwir ganlyniadau a chanlyniadau posibl y tor-amod – i unrhyw unigolyn/unigolion, y cyhoedd yn ehangach a/neu'r cyngor yn ei gyfanrwydd;*
- *i ba raddau y mae gweithredoedd yr aelod wedi dwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod perthnasol, neu faint o botensial sydd yna iddynt wneud hynny.*

*36. Dyma enghreifftiau o'r ffordd y gallai tribiwnlysoedd gymharu difrifoldeb:*

*• mae tor-amod sy'n cynnwys twyll bwriadol er mwyn cael budd personol neu er mwyn gwahaniaethu yn debygol o gael ei ystyried yn fwy difrifol na thor amod sy'n cynnwys defnydd diofal o gyfeiriad ebost cyngor ar broffil personol yn y cyfryngau cymdeithasol;..."*

10.1.5 Yr oedd y Tribiwnlys Achos o'r farn fod hwn yn ymddygiad difrifol – yn droseddu bwriadol, yn ymgais i dwyllo'n anonest er mwyn cael budd personol. Nid oedd hwn yn achos felly lle byddai peidio gweithredu'n addas.

10.1.6 Gan fod yr Atebydd wedi ymddiswyddo'n y pen draw, o'i swydd fel aelod o'r Cyngor Perthnasol, dim ond cyfnod o anghymhwyso fyddai'n addas. Gall Tribiwnlys Achos anghymhwyso'r aelod rhag bod yn aelod neu ddod yn aelod yn y dyfodol, o'r awdurdod dan sylw, neu unrhyw awdurdod perthnasol arall y mae'r côd ymddygiad yn berthnasol iddo am uchafswm o bum mlynedd. Hon yw'r gosb fwyaf difrifol sydd ar gael i dribiwnlys. Mae'r canllaw'n egluro fod anghymhwyso'n debygol o fod yn briodol os yw'r tor amod mor ddifrifol fel bod ymateb disgyblaethol sylweddol yn briodol er mwyn sicrhau nad yw'r un peth yn digwydd eto, dangos yn glir bod ymddygiad o'r fath mewn swydd gyhoeddus yn annerbyniol, pwysleisio pwysigrwydd y côd a chadw hyder y cyhoedd mewn democratiaeth leol.

10.1.7 Ystyriodd y Tribiwnlys Achos y ffactorau lliniarol a gwaethygol canlynol wrth ystyried hyd y gosb:

**Amgylchiadau lliniarol**

10.1.7.1 Dim ond un digwyddiad ac un drosedd oedd i'w hystyried.

10.1.7.2 Roedd yr Atebydd yn Aelod gweddol newydd o'r Cyngor Perthnasol – wedi'i ethol flwyddyn cyn y drosedd.

10.1.7.3 Ni chafwyd unrhyw gwynion am yr aelod na phenderfyniadau Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd yn ei erbyn.

10.1.7.4 Bu i'r Atebydd gydweithredu'n llawn â'r Heddlu, cyfaddef i'r drosedd a derbyn Rhybudd Amodol.

10.1.7.5 Bu i'r Atebydd gydweithredu gyda OGCC.

10.1.7.6 Ymddiswyddodd yr Atebydd o'i swydd oherwydd y drosedd.

10.1.7.7 Ysgrifennodd yr Atebydd at y Cyngor oedd yn ei gyflogi'n ymddiheuro am y drosedd.

**Amgylchiadau gwaethygol**

10.1.7.8 Roedd yr Atebydd wedi ymddwyn yn fwriadol mewn ymgais i gael budd personol o'r drosedd.

10.1.7.9 Roedd wedi camddefnyddio'i swydd fel Swyddog mewn awdurdod cyhoeddus i ddod a budd personol a thwyllo'i gyflogwr a Chyngor Tref Biwmares.

10.1.7.10 Roedd wedi cynllunio'r drosedd ymlaen llaw trwy dynnu tudalen o ganol y llyfr anfonebau a thynnu'r tudalennau carbon allan i guddio'r golled.

10.1.7.11 Roedd wedi erlid y cwmni i dalu'r ddyled bythefnos ar ôl anfon yr anfoneb wreiddiol.

10.1.7.12 Roedd wedi dileu ebyst o'i gyfrif i geisio cuddio'r drosedd a dweud mewn cyfweliad y dylai fod wedi taflu'r cyfrifiadur i'r Fenai.

10.1.7.13 Ni ystyriodd gyfeirio ei hun i OGCC a pharhaodd yn aelod o'r Cyngor Perthnasol hyd fis Medi 2025, gan fwriadu parhau i ddilyn gyrfa wleidyddol iddo'i hun. Er iddo hysbysu arweinydd y grŵp, bu'n araf i hysbysu'r Swyddog Monitro o'r Rhybudd Amodol.

10.1.7.14 Roedd yr Atebydd wedi bod yn gweithio fel swyddog mewn awdurdod cyhoeddus ers 12 mlynedd ac wedi bod yn gynghorydd lleol ers 2018. Roedd wedi mynychu hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad yn ddiweddar ac felly'n gybyddus â'r safonau disgwyliedig.

10.1.8 Wedi ystyried yr amgylchiadau a'r dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Tribiwnlys Achos yn casglu mai ychydig iawn o fewnwelediad oedd gan yr Atebydd i ddifrifoldeb y drosedd a'r sefyllfa yng nghyd-destun Egwyddorion Nolan a'i ddyletswydd dan y Côd Ymddygiad. Roedd ei ymddygiad yn groes i'r egwyddorion ynglŷn ag anhunanoldeb, gonestrwydd, uniondeb a phriodoldeb, dyletswydd i gynnal y gyfraith, stiwardiaeth, bod yn agored, atebolrwydd ac arweinyddiaeth. Mae rhain yn egwyddorion creiddiol i fywyd cyhoeddus, ond prif bryder yr Atebydd oedd effaith yr achos ar ei enw da a'i flaenoriaeth oedd sicrhau fod y wybodaeth ynglŷn â'i ymddygiad yn aros yn gyfrinachol. Er iddo ymddiheuro i Gyngor Sir Ynys Môn am ei ymddygiad, gwnaeth hynny ar gyngor yr heddlu ac i gydymffurfio ag amod y Rhybudd Amodol.

10.1 9 Penderfynodd y Tribiwnlys Achos fod hwn yn achos difrifol ac y dylai cyfnod o anghymhwyso fod yn ddigon hir iddo gael amser i adlewyrchu ar ei ymddygiad a chael cyfle i ystyried o ddifrif ei addasrwydd i ymgeisio am swydd gyhoeddus. Mae'n hanfodol cynnal safonau mewn bywyd cyhoeddus, ac felly penderfynwyd fod tair blynedd o anghymhwyso'n adlewyrchu difrifoldeb y drosedd a diffyg mewnwelediad yr Atebydd i ddifrifoldeb y tor-amod yr oedd yn euog ohono.

10.1.10 Penderfynodd y Tribiwnlys Achos yn unfryd fod cyfnod o dair blynedd o anghymhwyso'r Atebydd rhag bod neu ddod yn aelod o'r Awdurdod Perthnasol, neu unrhyw awdurdod perthnasol yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000.

10.1.11 Hysbysir Cyngor Sir Gwynedd a'i Bwyllgor Safonau yn unol â hynny.

10.1.12 Mae gan yr Atebydd hawl i wneud cais i'r Uchel Lys am ganiatâd i apelio'n erbyn y dyfarniad hwn. Cynghorir unrhyw un sy'n bwriadu gwneud cais am ganiatâd i geisio cyngor annibynnol ar unwaith.

Arwyddwyd: ………Barnwr Meleri Tudur...........

Dyddiad: 10fed Chwefror 2026

| | |
|---|---|
| Cadeirydd y Tribiwnlys Achos: | Barnwr Meleri Tudur |
| Aelod y Tribiwnlys Achos: | Dr Glenda Jones |
| Aelod y Tribiwnlys Achos: | Mrs Siân McRobie |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | Y Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad :** | 23 Chwefror 2026 |
| **Teitl :** | Diwygiadau i Gôd Ymddygiad yr Aelodau a Pholisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor |
| **Awdur :** | Iwan G D Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Swyddog Monitro |
| **Pwrpas :** | Cynghori aelodau am ddiwygiadau arfaethedig i Gôd Ymddygiad yr Aelodau a Pholisi Canu'r Gloch y Cyngor |

**Cefndir**

Mae adroddiad drafft i'r Cyngor yn ynghlwm i chi fel aelodau yn yr Atodlen yn tynnu sylw at newidiadau i'r Egwyddorion Ymddygiad, y Cod Ymddygiad Aelodau I a'r Polisi Chwythu'r Chwiban ,

**Penderfyniad a Geisir**

**Bod y Pwyllgor yn derbyn y wybodaeth**

**ADRAN 18**

## 18. CÔD YMDDYGIAD AELODAU

### 18.1 YR EGWYDDORION

Mae Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion)(Cymru) 2001 yn nodi'r egwyddorion sydd i lywodraethu ymddygiad aelodau awdurdod perthnasol yng Nghymru. Dyma nhw:-

#### 18.1.1 ANHUNANOLDEB

Mae'n rhaid i Aelodau weithredu er budd y cyhoedd yn unig. Mae'n rhaid iddynt beidio byth â defnyddio eu safle fel Aelodau i roi mantais amhriodol i'w hunain nac i roi mantais neu anfantais amhriodol i eraill.

#### 18.1.2 GONESTRWYDD

Mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn ffordd sy'n diogelu budd y cyhoedd.

#### 18.1.3 UNIONDEB A GWEDDUSTER

Mae'n rhaid i Aelodau beidio â'u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle y gallai unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu arnynt o ran cyflawni eu dyletswyddau godi amheuon ynglŷn â'u huniondeb. Mae'n rhaid i Aelodau osgoi ymddygiad sy'n ymddangos felly ar bob achlysur.

#### 18.1.4 DYLETSWYDD I GYNNAL Y GYFRAITH

Mae'n rhaid i Aelodau weithredu i gynnal y gyfraith, a gweithredu ar bob achlysur yn unol â'r ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd wedi'i rhoi ynddynt.

#### 18.1.5 STIWARDIAETH

Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, mae'n rhaid i Aelodau sicrhau bod adnoddau eu hawdurdod yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon ac yn ochelgar.

#### 18.1.6 GWRTHRYCHEDD WRTH WNEUD PENDERFYNIADAU

Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys gwneud penodiadau, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon a buddiannau, mae'n rhaid i Aelodau wneud penderfyniadau ar sail teilyngdod. Er bod yn rhaid i Aelodau ystyried cyngor proffesiynol gan swyddogion ac y gallai fod yn briodol iddynt roi sylw i safbwyntiau pobl eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb hwy yw penderfynu pa safbwynt i'w arddel ac, os yw'n briodol, sut i bleidleisio ar unrhyw fater.

#### 18.1.7 CYDRADDOLDEB A PHARCH

Mae'n rhaid i Aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gan roi ystyriaeth briodol i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u **nodweddion gwarchodedig neu eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithaso**~~l~~ **~~rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd~~**, ~~a~~ dangos parch ac ystyriaeth tuag at bobl eraill.

18.1.8 **BOD YN AGORED**

Mae'n rhaid i Aelodau fod mor agored â phosibl ynglŷn â'u holl weithredoedd a gweithredoedd eu hawdurdod. Mae'n rhaid iddynt geisio sicrhau bod datgeliadau gwybodaeth yn cael eu cyfyngu yn unol â'r gyfraith yn unig.

18.1.9 **ATEBOLRWYDD**

Mae Aelodau'n atebol i'r etholaeth a'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd ac am y ffordd y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel Aelodau. Mae'n rhaid iddynt fod yn barod i ildio i unrhyw graffu sy'n briodol i'w cyfrifoldebau.

18.1.10 **ARWEINYDDIAETH**

Mae'n rhaid i Aelodau hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn trwy roi arweiniad ac esiampl er mwyn hybu hyder y cyhoedd yn eu rôl ac yn yr awdurdod. Mae'n rhaid iddynt barchu didueddrwydd ac uniondeb swyddogion statudol yr awdurdod a'i gyflogeion eraill.

**18.2 DEHONGLIAD**

18.2.1 Yn y côd hwn mae

"**aelodau cyfetholedig**" o ran awdurdod perthnasol, yn golygu unigolyn nad yw'n Aelod o'r awdurdod ond sy'n:

(a) Aelod o unrhyw un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r awdurdod; neu'n

(b) Aelod o unrhyw un o gydbwyllgorau neu is-gydbwyllgorau'r awdurdod, ac yn cynrychioli'r awdurdod arnynt

ac sydd â hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.

"**cyfarfod**" yn golygu unrhyw gyfarfod:

(a) o'r awdurdod perthnasol;

(b) o unrhyw weithrediaeth neu fwrdd yn yr awdurdod perthnasol;

(c) o unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cydbwyllgor neu is-gydbwyllgor yn yr awdurdod perthnasol neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cydbwyllgor neu is-gydbwyllgor o'r fath yn unrhyw weithrediaeth neu fwrdd o'r awdurdod; neu

(ch) pan fo Aelodau neu Swyddogion yr awdurdod perthnasol yn bresennol heblaw mewn cyfarfod o grŵp gwleidyddol a ffurfiwyd yn unol â rheoliad 8 Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990, ac yn cynnwys amgylchiadau pryd y mae Aelod o weithrediaeth neu fwrdd neu Swyddog sy'n gweithredu ar ei ben/phen ei hun yn arfer un o swyddogaethau'r awdurdod;

"**Aelod**" yn cynnwys, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, aelod cyfetholedig.

"**Awdurdod perthnasol**" yn golygu:

(a) cyngor sir;

(b) cyngor bwrdeistref sirol;

(c) cyngor cymuned;

(ch) awdurdod tân ac achub a ffurfiwyd gan gynllun o dan Adran 2 Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae Adran 4 o'r Ddeddf honno'n berthnasol iddo;

(d) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan Adran 63 Deddf yr Amgylchedd 1995.

"**chi**" yn golygu chi fel Aelod neu Aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol;

"**eich awdurdod**" yn golygu'r awdurdod perthnasol yr ydych chi'n Aelod neu'n Aelod cyfetholedig ohono.

mae i "**nodweddion gwarchodedig**" yr ystyr a roddir i "protected characteristics" yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010

18.2.2 O ran cyngor cymuned, dylid cymryd bod cyfeiriadau at Swyddog Monitro awdurdod a phwyllgor safonau awdurdod, yn ôl eu trefn, yn cyfeirio at Swyddog Monitro a phwyllgor safonau'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol sydd â swyddogaethau mewn perthynas â'r cyngor cymuned y mae'n gyfrifol amdano o dan Adran 56(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000.

**18.3 DARPARIAETHAU CYFFREDINOL**

18.3.1 Ac eithrio lle mae paragraff 18.3.3. yn berthnasol, mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn;

(a) pryd bynnag y byddwch yn cynnal busnes eich awdurdod neu'n bresennol mewn cyfarfod o'ch awdurdod;

(b) pryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni eich bod yn gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn rhinwedd rôl Aelod y cawsoch eich ethol neu'ch penodi iddi;

(c) pryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni eich bod yn gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu fel cynrychiolydd eich awdurdod; neu

(ch) bob amser ac mewn unrhyw swyddogaeth, mewn perthynas â'r ymddygiad a nodir ym mharagraffau 18.3.6(a) a 18.3.8.

18.3.2 Dylech ddarllen y côd hwn ynghyd â'r egwyddorion cyffredinol a bennir o dan Adran 49(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000 o ran Cymru.

18.3.3 Pan gewch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu:

(a) ar awdurdod perthnasol arall, neu unrhyw gorff arall, sy'n cynnwys awdurdod heddlu neu Fwrdd Iechyd Lleol, mae'n rhaid i chi, wrth weithredu ar ran yr awdurdod neu'r corff arall hwnnw, gydymffurfio â chôd ymddygiad yr awdurdod neu'r corff arall hwnnw; neu

(b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo gôd yn ymwneud ag ymddygiad ei aelodau, mae'n rhaid i chi wrth weithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r côd ymddygiad hwn, ac eithrio lle y mae'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau, cyfreithlon eraill y gallai'r corff arall hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt.

18.3.4 Mae'n rhaid i chi:

(a) gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi ystyriaeth briodol i'r egwyddor y dylai fod cyfle dob i bawb, waeth beth fo'u **nodweddion gwarchodedig neu eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol** ~~**rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd;**~~

(b) dangos parch at bobl eraill ac ystyriaeth iddynt;

(c) peidio â bwlio nac aflonyddu unrhyw unigolyn; a

(ch) pheidio â gwneud unrhyw beth sy'n peryglu, neu sy'n debygol o beryglu, didueddrwydd y rhai hynny sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ran eich awdurdod.

18.3.5 Mae'n rhaid i chi beidio â

(a) datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y dylid ystyried yn rhesymol ei bod o natur gyfrinachol, heb ganiatâd penodol unigolyn sydd ag awdurdod i roi caniatâd o'r fath, neu oni bai fod yn rhaid i chi wneud hynny o dan y gyfraith;

(b) atal unrhyw unigolyn rhag cael mynediad at wybodaeth y mae gan yr unigolyn hwnnw hawl iddi o dan y gyfraith.

18.3.6 Mae'n rhaid i chi:

(a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid ystyried yn rhesymol ei bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'r awdurdod;

(b) adrodd pa un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, am unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae'n rhesymol i chi gredu ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw, at ddibenion y paragraff hwn, yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellid eu cosbi trwy gosb benodedig);

(c) adrodd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Swyddog Monitro eich awdurdod am unrhyw ymddygiad gan aelod arall y mae'n rhesymol i chi gredu ei fod yn torri'r côd ymddygiad hwn;

(ch) peidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wacsaw yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ran eich awdurdod.

18.3.7 Mae'n rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan Swyddog Monitro eich awdurdod, neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag ymchwiliad a gynhelir yn unol â'u pwerau statudol unigol.

18.3.8 Mae'n rhaid i chi:

(a) yn rhinwedd eich swydd neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu sicrhau mantais i chi eich hun, neu i unrhyw unigolyn arall, neu i greu neu osgoi anfantais i chi eich hun, neu i unrhyw unigolyn arall;

(b) peidio â defnyddio adnoddau eich awdurdod, nac awdurdodi pobl eraill i'w defnyddio:

(i) yn annoeth;

(ii) yn groes i ofynion eich awdurdod;

(iii) yn anghyfreithlon;

(iv) ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd y cawsoch eich ethol neu eich penodi iddi;

(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu

(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat.

18.3.9 Mae'n rhaid i chi:

(a) wrth gymryd rhan mewn cyfarfodydd neu wneud penderfyniadau ynglŷn â busnes eich awdurdod, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau dan sylw ac er budd y cyhoedd gan ystyried unrhyw

gyngor perthnasol a roddwyd gan swyddogion eich awdurdod, ac yn enwedig gan:

(i) Brif Weithredwr yr awdurdod;

(ii) Prif Swyddog Cyllid yr awdurdod;

(iii) Swyddog Monitro'r awdurdod;

(iv) Prif Swyddog Cyfreithiol yr awdurdod (y dylid ymgynghori ag ef/hi pan fo unrhyw amheuaeth ynglŷn â phŵer yr awdurdod i weithredu, ynghylch pan un a yw'r camau arfaethedig o fewn y fframwaith polisi a gytunwyd gan yr awdurdod neu os gallai canlyniadau cyfreithiol weithredu neu fethiant i weithredu gan yr awdurdod arwain at ôl-effeithiau pwysig);

(b) rhoi rhesymau dros bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion rhesymol ychwanegol a osodwyd gan eich awdurdod.

18.3.10 Mae'n rhaid i chi:

(a) gydymffurfio â'r gyfraith a rheolau eich awdurdod sy'n llywodraethu hawlio treuliau a lwfansau mewn cysylltiad â'ch dyletswyddau fel aelod.

(b) osgoi derbyn unrhyw roddion oddi wrth neb, na lletygarwch (heblaw am letygarwch swyddogol, fel derbyniad dinesig neu ginio gwaith a awdurdodwyd yn briodol gan eich awdurdod), na buddiannau materol neu wasanaethau i chi eich hun neu unrhyw unigolyn a allai eich rhoi chi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu ymddangos fel pe bai'n gwneud hynny.

## 18.4 <u>BUDDIANNAU</u>

18.4.1 <u>Buddiannau Personol</u>

(a) Mae'n rhaid i chi ystyried, ym mhob mater, pa un a oes gennych chi fuddiant personol, a pha un a yw'r côd ymddygiad hwn yn mynnu eich bod yn datgelu'r buddiant hwnnw.

(b) Mae'n rhaid i chi ystyried bod gennych chi fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef:

(i) os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt:

(A) unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gynhelir gennych chi;

(B) unrhyw unigolyn sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi; unrhyw gwmni yr ydych chi'n bartner ynddo neu unrhyw gwmni yr ydych chi'n gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer;

(C) unrhyw unigolyn, heblaw am eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn perthynas â'ch ethol neu unrhyw dreuliau a gafwyd gennych wrth gyflawni eich dyletswyddau fe aelod;

(CH) unrhyw gorff corfforaethol sydd â lle busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol ynddo mewn dosbarth o warannau'r corff hwnnw sy'n fwy na gwerth enwol £25,000 neu ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;

(D) unrhyw gontract ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhwng eich awdurdod a chi eich hun neu gwmni yr ydych chi'n bartner ynddo, cwmni yr ydych chi'n gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer neu gorff sy'n cyfateb i'r disgrifiad a roddir ym mharagraff CH uchod;

(DD) unrhyw dir y mae gennych chi fuddiant llesiannol ynddo sydd yn ardal eich awdurdod;

(E) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord ar ei gyfer ac y mae'r tenant yn gwmni yr ydych chi'n bartner ynddo, cwmni yr ydych chi'n gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer, neu gorff sy'n cyfateb i'r disgrifiad a roddir ym mharagraff (CH) uchod;

(F) unrhyw gorff yr ydych wedi'ch ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan eich awdurdod;

(FF) unrhyw:

1. awdurdod neu gorff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;
2. cwmni, cymdeithas ddiwydiannol neu ddarbodus, elusen, neu gorff sydd wedi'i gyfeirio at ddibenion elusennol;
3. corff y mae ei brif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus;
4. undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu
5. glwb, cymdeithas neu fudiad preifat sy'n gweithredu yn ardal eich awdurdod

yr ydych chi'n aelod ohono/ohoni neu'n dal swydd reolaeth gyffredinol ynddo/ynddi;

(G) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych chi drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill), i'w feddiannu am 28 diwrnod neu gyfnod hwy;

(ii) Pe gallai aelod o'r cyhoedd ganfod yn rhesymol wrthdaro rhwng eich rôl wrth wneud penderfyniad, ynglŷn â'r busnes hwnnw, ar ran eich awdurdod yn gyffredinol a'ch rôl wrth gynrychioli buddiannau etholwyr yn eich ward neu adran etholiadol; neu

(iii) benderfyniad y gellid ystyried yn rhesymol ei fod yn effeithio ar:

(A) eich lles neu eich sefyllfa ariannol, neu les neu sefyllfa ariannol unigolyn yr ydych chi'n byw gydag ef/hi, neu unigolyn y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef/hi;

(B) unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gynhelir gan yr unigolion a ddisgrifir yn (A);

(C) unrhyw unigolyn sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw unigolion a ddisgrifir yn (A), unrhyw gwmni y maent yn bartner ynddo, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwr ar ei gyfer;

(CH) unrhyw gorff corfforaethol y mae gan yr unigolion a ddisgrifir yn (A) fuddiant llesiannol ynddo mewn dosbarth o warannau sy'n fwy na gwerth enwol £5,000; neu

(D) unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 18.4.1(b)(i)(FF)1 i 18.4.1(b)(i)(FF)5 y mae'r unigolion a ddisgrifir yn (A) yn dal swydd reolaeth gyffredinol ynddo, i raddau mwy na mwyafrif

1. yn achos awdurdod â wardiau neu adrannau etholiadol talwyr y dreth cyngor, trethdalwyr neu breswylwyr eraill y ward neu'r adran etholiadol, fel y bo'n berthnasol, y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

2. ym mhob achos arall, talwyr y dreth cyngor, trethdalwyr neu breswylwyr eraill ardal yr awdurdod.

18.4.2 Datgelu Buddiannau Personol

(a) Pan fydd gennych chi fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef a'ch bod yn bresennol mewn cyfarfod lle mae'r busnes hwnnw'n cael ei ystyried, mae'n rhaid i chi ddatgelu ar lafar i'r cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn neu ar ddechrau'r ystyriaeth honno, neu pan ddaw'r buddiant yn amlwg.

(b) Pan fydd gennych chi fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef a'ch bod yn cyflwyno:

(i) sylwadau ysgrifenedig (boed hynny trwy lythyr, ffacs neu ryw fath arall o gyfathrebu electroneg) i aelod neu swyddog o'ch awdurdod ynglŷn â'r busnes hwnnw, dylech gynnwys manylion y buddiant hwnnw yn y cyfathrebiad ysgrifenedig; neu

(ii) sylwadau ar lafar (boed hynny'n bersonol neu drwy ryw fath o gyfathrebu electroneg) i aelod neu swyddog o'ch awdurdod, dylech ddatgelu'r buddiant ar ddechrau sylwadau o'r fath, neu pan ddaw'n amlwg i chi bod gennych fuddiant o'r fath, a chadarnhau'r sylwadau a'r buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod o wneud y sylwadau.

(c) Yn amodol ar baragraff 18.4.5(a)(ii) isod, pan fydd gennych chi fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef a'ch bod wedi gwneud penderfyniad wrth arfer un o swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd, mae'n rhaid i chi, o ran y busnes hwnnw, sicrhau bod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig ynglŷn â phenderfyniad hwnnw yn cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant.

(ch) Mae'n rhaid i chi, o ran buddiant personol na ddatgelwyd yn flaenorol, cyn neu'n union ar ôl diwedd cyfarfod lle y gwnaed y datgeliad yn unol â pharagraff 18.4.2(a) roi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod yn unol ag unrhyw ofynion a nodir gan Swyddog Monitro eich awdurdod o bryd i'w gilydd ond sy'n cynnwys, o leiaf:

(i) fanylion y buddiant personol;

(ii) manylion y busnes y mae'r buddiant personol yn ymwneud ag ef;

(iii) llofnod.

(d) Pan fydd eich Swyddog Monitro yn cytuno bod y wybodaeth yn ymwneud â'ch buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yn unol â pharagraff 18.5.2(a), bydd eich rhwymedigaethau o dan y paragraff 18.4.2 hwn i ddatgelu gwybodaeth o'r fath, boed hynny ar lafar neu'n ysgrifenedig, yn cael eu disodli gan rwymedigaeth i ddatgelu bodolaeth buddiant personol a chadarnhau bod eich Swyddog Monitro wedi cytuno bod natur y cyfryw fuddiant personol yn wybodaeth sensitif.

(dd) At ddibenion paragraff (ch), ystyrir bod buddiant personol wedi cael ei ddatgelu'n flaenorol dim ond os rhoddwyd hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r côd hwn ers y dyddiad diwethaf y cawsoch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu'n aelod o'ch awdurdod.

(e) At ddibenion is-baragraff (c), os na roddwyd hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r paragraff hwnnw, ystyrir nad ydych wedi datgelu buddiant personol yn unol â'r côd hwn.

18.4.3 <u>Buddiannau sy'n Rhagfarnu</u>

(a) Yn amodol ar baragraff (b) isod, pan fydd gennych chi fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os yw'r buddiant yn un y byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n ymwybodol o'r ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch budd y cyhoedd.

(b) Yn amodol ar baragraff (c), ni ystyrir bod gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os yw'r busnes hwnnw:

(i) yn ymwneud â'r canlynol:

(A) awdurdod perthnasol arall yr ydych chi'n aelod ohono hefyd;

(B) awdurdod neu gorff cyhoeddus arall sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus yr ydych chi'n dal swydd reolaeth gyffredinol ynddo;

(C) corff y cawsoch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan eich awdurdod;

(CH) eich rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod) oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol yr ydych chi'n llywodraethwr ynddi;

(D) eich rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod;

(ii) yn ymwneud â'r canlynol:

(A) swyddogaethau tai eich awdurdod os oes gennych chi denantiaeth neu brydles gyda'ch awdurdod, ar yr amod nad oes gennych chi ôl-ddyledion rhent o fwy na dau fis gyda'ch awdurdod, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn benodol â'ch tenantiaeth neu'ch prydles;

(B) swyddogaethau eich awdurdod o ran costau prydau ysgol, cludiant a theithio, os ydych chi'n warcheidwad, rhiant neu riant-cu neu'n meddu ar gyfrifoldeb rhiant (fel y'i diffinnir yn Adran 3 Deddf Plant 1989) am blentyn sydd mewn addysg amser llawn, oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol y mae'r plentyn hwnnw/honno'n mynd iddi;

(C) swyddogaethau eich awdurdod o ran tâl salwch statudol o dan Ran XI Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, os ydych chi'n derbyn tâl o'r fath gan eich awdurdod neu os oes gennych chi hawl i'w dderbyn;

(CH) swyddogaethau eich awdurdod o ran lwfans neu daliad a wnaed o dan Adrannau 22(5), 24(4) a 173 i 176 Deddf Llywodraeth Leol 1972, lwfans neu bensiwn o dan Adran 18 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 neu lwfans neu daliad o dan Adran 100 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

(iii) eich rôl fel cynghorydd cymuned o ran grant, benthyciad neu fath arall o gymorth ariannol a wnaed gan eich cyngor cymuned i sefydliad cymunedol neu wirfoddol hyd at uchafswm o £500.

(c) Nid yw'r eithriadau ym mharagraff 18.4.3(b)(i) yn berthnasol pan fo'r busnes yn ymwneud â phenderfynu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad.

18.4.4 Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a gyflwynir gerbron un o bwyllgorau trosolwg a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath) pan fo'r:

(a) busnes hwnnw'n ymwneud â phenderfyniad a wnaed (pa un a'i gweithredwyd ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth neu fwrdd eich awdurdod neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cydbwyllgorau neu is-gydbwyllgorau eich awdurdod; ac

(b) ar yr adeg y gwnaed y penderfyniad neu y cymerwyd y cam, yr oeddech chi'n Aelod o'r weithrediaeth, bwrdd, pwyllgor is-bwyllgor, cydbwyllgor neu is-gydbwyllgor a grybwyllwyd ym mharagraff (a) ac yn bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu y cymerwyd y cam hwnnw.

18.4.5 Cyfranogiad mewn perthynas â Buddiannau a Ddatgelwyd

(a) Yn amodol ar baragraffau (b), (c) ac (ch) pan fydd gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, mae'n rhaid i chi, oni bai eich bod wedi cael goddefeb gan bwyllgor safonau eich awdurdod:

(i) fynd allan o'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod sy'n ystyried y busnes yn cael ei gynnal:

(A) lle y mae paragraff (b) yn berthnasol, yn union ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth ynglŷn â'r busnes ddod i ben a, sut bynnag, cyn i ystyriaeth bellach o'r busnes ddechrau, pa un a ganiateir i'r cyhoedd aros yn y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth o'r fath ai peidio; neu

(B) mewn unrhyw achos arall, pryd bynnag y daw'n amlwg bod y busnes yn cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;

(ii) peidio ag arfer swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd o ran y busnes hwnnw;

(iii) peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynglŷn â'r busnes hwnnw;

(iv) peidio â gwneud unrhyw sylwadau ysgrifenedig (boed hynny trwy lythyr, ffacs neu ryw fath arall o gyfathrebu electroneg) mewn perthynas â'r busnes hwnnw; a

(v) peidio â gwneud unrhyw sylwadau llafar (boed hynny'n bersonol neu drwy ryw fath o gyfathrebu electroneg) mewn perthynas â'r busnes hwnnw neu roi'r gorau ar unwaith i wneud sylwadau llafar o'r fath pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg.

(b) Pan fydd gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, cewch fynychu cyfarfod er mwyn cyflwyno sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth yn ymwneud â'r busnes yn unig, cyn belled ag y caniateir i'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod hefyd at yr un diben, boed hynny o dan hawl statudol neu fel arall.

(c) Nid yw paragraff (a) yn eich atal rhag mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfod:

(i) os y gofynnir i chi fynychu cyfarfod pwyllgor trosolwg a chraffu, gan bwyllgor o'r fath sy'n arfer ei bwerau statudol; neu

(ii) a oes gennych chi oddefeb cyn belled â'ch bod:

(A) yn datgan yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar yr oddefeb; a

(B) cyn neu yn union ar ôl i'r cyfarfod orffen, eich bod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod sy'n cynnwys:

1. manylion y buddiant sy'n rhagfarnu;

2. manylion y busnes y mae'r buddiant sy'n rhagfarnu yn ymwneud ag ef;

3. manylion yr oddefeb a'r dyddiad y'i caniatawyd arno; a'ch

4. llofnod.

(ch) Pan fydd gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu a'ch bod yn gwneud sylwadau ysgrifenedig neu lafar i'ch awdurdod gan ddibynnu ar oddefeb, mae'n rhaid i chi gynnwys manylion yr oddefeb mewn unrhyw sylwadau ysgrifenedig neu lafar o'r fath ac, yn yr achos

olaf, roi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod o fewn 14 diwrnod o wneud y sylwadau.

**18.5 <u>Y GOFRESTR BUDDIANNAU AELODAU</u>**

18.5.1 <u>Cofrestru Buddiannau Ariannol ac Eraill ac Aelodaeth a Swyddi Rheoli.</u>

(a) Yn amodol ar is-baragraff (c) mae'n rhaid i chi o fewn 28 diwrnod o'r:

(i) adeg y caiff côd ymddygiad eich awdurdod ei fabwysiadu neu y caiff darpariaethau gorfodol y côd enghreifftiol hwn eu cymhwyso i'ch awdurdod; neu o'ch

(ii) etholiad neu benodiad i'r swydd (os yw hynny'n ddiweddarach),

gofrestru eich buddiannau ariannol a buddiannau eraill, pan fyddant yn dod o fewn categori a grybwyllwyd ym mharagraff 18.4.1(b)(i) yng nghofrestr eich awdurdod a gynhelir o dan Adran 81(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000 trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro eich awdurdod.

(b) Mae'n rhaid i chi, o fewn 28 diwrnod o ddod yn ymwybodol o unrhyw fuddiant personol newydd neu newid i unrhyw fuddiant personol a gofrestrwyd o dan baragraff (a), gofrestru'r buddiant personol newydd hwnnw neu'r newid hwnnw i fuddiant personol trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro eich awdurdod.

(c) Nid yw paragraffau (a) a (b) yn berthnasol i wybodaeth sensitif a bennwyd un unol â pharagraff 18.5.2(a).

(ch) Ni fydd paragraff (a) yn berthnasol os ydych chi'n aelod o awdurdod perthnasol sy'n gyngor cymuned pan fyddwch yn gweithredu yn rhinwedd eich swydd fel aelod o awdurdod o'r fath.

18.5.2 <u>Gwybodaeth Sensitif</u>

(a) Pan fyddwch o'r farn bod y wybodaeth yn ymwneud ag unrhyw un o'ch buddiannau personol yn wybodaeth sensitif a bod Swyddog Monitro eich awdurdod yn cytuno, ni fydd angen i chi gynnwys y wybodaeth honno wrth gofrestru'r buddiant hwnnw, neu, fel y bo'n berthnasol newid i'r buddiant o dan baragraff 18.5.1.

(b) Mae'n rhaid i chi o fewn 28 diwrnod o ddod yn ymwybodol o unrhyw newid i amgylchiadau sy'n golygu nad yw'r wybodaeth a eithriwyd o dan is-baragraff (a) yn wybodaeth sensitif mwyach, hysbysu Swyddog Monitro eich awdurdod gan ofyn i'r wybodaeth gael ei chynnwys yng nghofrestr buddiannau aelodau eich awdurdod.

(c) Yn y côd hwn, mae "gwybodaeth sensitif" yn golygu gwybodaeth y byddai caniatau iddi gael ei harchwilio gan y cyhoedd yn creu,

neu'n debygol o greu, risg ddifrifol y gallech chi neu unigolyn sy'n byw gyda chi fod yn agored i drais neu fygythion.

18.5.3 Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch.

Mae'n rhaid i chi, o fewn 28 diwrnod o dderbyn unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais sy'n werth mwy na £25 roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro eich awdurdod o fodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais honno.

**ADRAN 22**

**22. POLISI "CANU'R GLOCH"**

**22.1 CWESTIYNAU CYFFREDIN**

**Beth yw "canu'r gloch"?**
"Canu'r gloch" yw pan fydd gweithiwr, contractwr neu gyflenwr yn rhannu pryder difrifol am gamymarfer, ymddygiad amhriodol neu weithgarwch anghyfreithlon o fewn y Cyngor.

**Pam mae'r polisi hwn yn bodoli?**
Mae'r polisi'n rhoi ffordd ddiogel i bobl siarad allan os oes ganddynt bryderon difrifol. Mae'n helpu i warchod safonau'r Cyngor ac i sicrhau bod gweithredoedd amhriodol yn cael eu hatal.

**Beth allaf godi pryder amdano?**
Gellir codi pryder am unrhyw beth o fudd i'r cyhoedd, megis:

- twyll neu gamddefnyddio arian cyhoeddus
- camdriniaeth neu esgeulustod tuag at gwsmeriaid neu gleientiaid
- llygredigaeth neu gamddefnyddio awdurdod
- perygl i iechyd a diogelwch
- cuddio gwybodaeth bwysig neu gamymarfer

**Pwy all "ganu'r gloch"?**
Gall unrhyw weithiwr, contractwr, cyflenwr, gwirfoddolwr neu ymgynghorydd sy'n gweithio i'r Cyngor wneud hynny.

**A fydd fy enw'n cael ei gadw'n gyfrinachol?**
Bydd, lle bo hynny'n bosibl. Ni ddatgelir eich enw heb eich caniatâd oni bai bod angen cyfreithiol i wneud hynny (e.e. mewn achos llys).

**Beth os nad wyf am roi fy enw?**
Gallwch wneud datgeliad dienw, ond gall fod yn anoddach ymchwilio i'r mater os na ellir cysylltu â chi am fanylion pellach.

**A fyddaf yn cael fy amddiffyn rhag dial neu erlid?**
Byddwch. Mae'r gyfraith (Deddf Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998) yn eich amddiffyn rhag unrhyw fath o gosb, aflonyddu neu driniaeth annheg os ydych yn codi pryder dilys.

**Pwy ddylwn i gysylltu â nhw i rannu pryder?**
Mae sawl llwybr gwahanol ar gyfer rhannu pryder, gwelir cymal 22.6 yn y ddogfen hon ar gyfer fwy o wybodaeth.

**Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi godi pryder?**
Bydd y Cyngor yn cadarnhau derbyn eich pryder, yn cymryd camau i ymateb i'r datgeliad  gan gynnwys cychwyn ymchwiliadau ffurfiol ac yn rhoi gwybod i chi am y canlyniad lle bo hynny'n bosibl. Mae natur unrhyw ymchwiliad am amrywio yn dibynnu ar y datgeliad.

**Nid wyf yn gweithio i'r Cyngor, a allaf godi pryder?**
Mae'r polisi hwn yn berthnasol i weithwyr y Cyngor. Er hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod y gall pobl nad ydynt yn gweithio i'r awdurdod lleol dymuno codi pryder. Ceir nodyn canllaw ar ddiwedd y polisi, sydd yn esbonio sut y gall unigolion nad ydynt yn weithwyr y Cyngor godi pryder ac â phwy y dylent gysylltu.

22.2 **Ble gallaf gael cyngor neu gymorth?**
Mae cymorth ar gael trwy eich Undeb Llafur neu'r elusen Protect (www.protect-advice.org.uk), sy'n cynnig cyngor cyfrinachol i unigolion sy'n canu'r gloch.

**DATGANIAD POLISI**

22.2.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel i bobl Gwynedd ac mae'n ddibynnol ar safon y staff a'r rheolwyr trwy'r awdurdod i wneud hyn. Yn achos camymarfer neu drosedd ddifrifol, mae'n hollbwysig dwyn y gweithgareddau hyn i'r golwg a'u datrys cyn gynted â phosibl er mwyn gwarchod safonau uchel y Cyngor a chynnal hyder y cyhoedd. Mae'r Cyngor felly yn hyrwyddo'r safonau uchaf posibl o ran bod yn agored, yn onest ac yn atebol.

22.2.2 Lluniwyd y Polisi Datgelu i agor ffordd ddiogel a dibynadwy i weithwyr sôn am bryderon, heb ofni y bydd rhywun yn dial arnynt, yn gwahaniaethu yn eu herbyn neu yn creu anfantais iddynt yn sgil hynny. Nid fydd Cyngor Gwynedd yn goddef aflonyddu neu erlid unigolyn sy'n sôn am bryder dilys.

22.2.3 Mae'r polisi yn annog gweithwyr i weithredu'n gyfrifol er mwyn gwarchod enw da'r Cyngor a chynnal hyder y cyhoedd. Disgwylir i unigolion ddod ymlaen a sôn am bryderon difrifol sydd ganddynt ynghylch camymarfer.

22.2.4 Bwriad y polisi yw annog a galluogi gweithwyr i rannu pryderon difrifol o fewn y Cyngor yn hytrach na dewis ceisio datrys pethau yn allanol.

22.2.5 Bydd Cyngor Gwynedd yn ymateb yn gyflym ac yn drwyadl i bryderon y sonnir amdanynt dan y polisi hwn, ac yn gweithredu mewn ffordd gyfrifol a phositif i sicrhau nad yw camymarfer yn cael parhau.

22.2.6 Mae'r polisi hwn wedi'i ddatblygu ynghyd â'r daflen sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor i weithwyr, yn ogystal â'r canllawiau i reolwyr ar sut i ymateb i bryderon y sonnir amdanynt. Gellir cael copïau o'r dogfennau hyn oddi wrth yr Adran Gwasanaethau Gorfforaethol.

**22.3 I BWY Y MAE'R POLISI'N BERTHNASOL**

22.3.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff y Cyngor a chontractwyr sy'n gwneud gwaith i'r Cyngor ar eiddo'r Cyngor megis gweithwyr

asiantaeth neu adeiladwyr; cyflenwyr a'r rheini sy'n darparu gwasanaethau dan gontract gyda'r Cyngor mewn eiddo megis cartrefi gofal.

**2.4 AMCANION**

2.4.1 Mae’r polisi yn ceisio

- annog gweithwyr sy'n bryderus ynghylch camymarfer i deimlo'n ddigon hyderus i ddod ymlaen a rhannu eu pryderon
- sicrhau bod gweithwyr yn deall beth yw eu cyfrifoldeb o ran sôn am gamymarfer
- creu ffyrdd dibynadwy iddynt sôn am bryderon a chael gwybod yn llawn beth ddigwyddodd wedyn
- sicrhau bod gweithwyr sy'n rhannu pryder yn cael gwybod beth oedd canlyniad y mater, a hefyd eu bod yn gwybod sut i fynd â'r mater ymhellach os nad ydynt yn fodlon gydag ymateb y Cyngor
- rhoi sicrwydd y bydd gweithwyr sy'n sôn am bryder dilys sydd ganddynt yn cael eu hamddiffyn rhag unrhyw ddial neu erlid posibl.

2.4.2 Er mwyn gwneud hyn bydd y Cyngor yn:

- Hyrwyddo'r polisi hwn a'r canllawiau perthnasol ar gyfer gweithwyr a rheolwyr mor eang â phosibl i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'i fodolaeth, ei sgôp a'i amcanion.
- Cynnwys y Polisi Datgelu fel rhan hanfodol o'r broses gyflwyno i weithwyr newydd.
- Hyrwyddo'r egwyddorion o fod yn agored ac yn atebol yn y man gwaith.
- Rhoi hyfforddiant i reolwyr llinell ar sut i ymdrin â phryderon a rennir dan y polisi hwn, cefnogi pobl sy'n ymwneud ag achosion o ddatgelu a Deddf Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998 a chefndir cyfreithiol 'datgelu'.
- Sicrhau bod pob cwyn yn cael ei thrin yn ddifrifol a sensitif a'i bod yn cael ei hymchwilio'n drwyadl.
- Cymryd camau i amddiffyn unigolion sy'n rhannu pryderon dan y polisi hwn rhag unrhyw ddial neu erlid.
- Ceisio datrys y mater yn y lle cyntaf o fewn y Cyngor.

**22.5 SGÔP**

22.5.1 Ar gyfer pryderon yn ymwneud â sefyllfaoedd lle mae budd eraill neu fudd y Cyngor ei hun mewn perygl y bwriedir y polisi yn bennaf. Dylai gweithwyr ddefnyddio'r polisi hwn os ydynt yn rhesymol amau bod yna gamymarfer neu drosedd wedi cymryd lle, ar fin digwydd neu efallai am ddigwydd.

22.5.2 At ddibenion y polisi hwn, mae ‘datgeliad cymwys’ yn golygu unrhyw wybodaeth a ddatgelir gan weithiwr y mae’n credu’n onest ac yn rhesymol ei bod yn dangos camymarfer neu gamwedd o’r math a restrir yn adran 22.4.2 Mae ‘datgeliad diogel’ yn golygu datgeliad a wneir yn unol â’r gofynion cyfreithiol yn y Ddeddf Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998, fel bod yr unigolyn yn cael yr amddiffyniadau statudol.

22.5.3 Gall cwynion fod ynghylch rhywbeth y credir ei fod o fudd i'r cyhoedd gan gynnwys rhywbeth

- sydd yn anghyfreithlon, yn dwyllodrus neu yn lygredigaeth;
- sydd yn gyfystyr â chamweinyddu fel a ddiffinnir gan yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol. Mae camweinyddu yn cwmpasu, er enghraifft, oedi di-gyfiawnder, methiant i ddilyn rheolau’r awdurdod neu’r gyfraith, rhagfarn, defnyddio ystyriaethau amhriodol, rhoi gwybodaeth anghywir a nifer o faterion tebyg a sydd yn achosi anghyfiawnder.
- sydd yn groes i, neu sydd heb fod yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor, ei Reoliadau Ariannol neu'i bolisïau, ei godau ymarfer neu ei ymrwymiadau cyfreithiol;
- nad yw'n cyrraedd y safonau ymarfer sefydledig;
- sydd yn torri unrhyw gôd ymarfer statudol;
- sydd yn gyfystyr ag ymddygiad amhriodol;
- sydd yn gyfystyr â cham-drin cleientiaid yn rhywiol, yn gorfforol neu yn emosiynol;
- sydd yn peryglu iechyd a diogelwch unigolyn;
- sydd yn achosi, neu sy'n debygol o achosi niwed i'r amgylchedd;
- sydd yn aflwyddiant cyfiawnder;
- sydd yn gamddefnydd o rym neu'n ddefnydd o rym ac awdurdod y Cyngor ar gyfer rhyw ddiben anawdurdodedig;
- sydd yn methu ag unioni neu gymryd camau rhesymol i adrodd am fater sy'n debygol o olygu cost fawr y gellid ei hosgoi neu golli canlyniad i'r Cyngor neu a fyddai fel arall yn peryglu'r Cyngor, neu
- sydd yn ymgais i guddio unrhyw rai o'r enghreifftiau uchod.

Nid yw'r rhestr yn derfynol; ei bwriad yw rhoi syniad o'r math o ymddygiad y gellid ei ystyried yn drosedd neu yn gamymarfer.

22.5.4 Ni ellir defnyddio'r polisi hwn yng nghyswllt torri posib ar gytundebau gwaith, e.e. cwynion personol neu i herio penderfyniadau, arferion neu bolisïau y gall unigolion fod yn anghytuno â hwy. Dylid ystyried y Polisi Datgelu, felly, fel peth cwbl ar wahân i brosesau sydd yn galluogi aelod staff i gyflwyno cwyn yng nghyswllt ei gyflogaeth ef ei hun.

**22.6 SUT I RANNU PRYDER**

**22.6.1 Rhannu Pryder**

22.6.1.1 Mae gan unrhyw un sy’n dymuno canu’r cloch nifer o opsiynau diogel i wneud hynny. Dylid dewis yr opsiwn sy’n teimlo fwyaf priodol yn ôl natur y pryder a’r amgylchiadau.

Mae sawl llwybr yn bodoli ar gyfer rhannu pryder. Mae’r llwybrau gwahanol wedi eu rhestru isod:

- Rheolwr llinell – er mwyn i’r rheolwr llinell gyfeirio’r mater ymhellach (gweler isod). Mae angen i bob rheolwr llinell fod ag ymwybyddiaeth o’r trefniadau, fel eu bod fan leiaf mewn sefyllfa i allu cyfeirio’r mater at swyddog priodol.
- Pennaeth Adran / Cyfarwyddwyr Corfforaethol / Prif Weithredwr / Swyddog Monitro. Bydd yr union lwybr yn dibynnu ar natur y pryder.
- Swyddogion Canu’r Gloch y Cyngor; sef Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog Monitro y Cyngor. Y Swyddogion Canu’r Gloch sydd hefyd yn gyfrifol am drefnu Grŵp Ymateb i unrhyw ddatgeliad (gwelir isod).
- Bydd unrhyw bryder sydd yn ymwneud ag amddiffyn plant neu oedolion yn cael ei gyfeirio yn syth o dan drefniadau diogelu’r Cyngor. Ni ddylai cyfrinachedd atal rhannu gwybodaeth pan fo trosedd, risg o niwed, neu camymddwyn difrifol, a disgwylir i bob ymarferydd weithredu’n brydlon i sicrhau diogelwch.
- Bydd unrhyw bryderon ynghylch camweinyddu ariannol yn cael ei rannu gyda’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol.
- Os nad yw staff am ddefnyddio un o’r opsiynau uchod yn uniongyrchol, gellir cyfeirio unrhyw bryder at gyfeiriad e-bost; canurgloch@gwynedd.llyw.cymru
- Beth bynnag fo’r dull o rannu gwybodaeth, fe fydd yr wybodaeth honno yn cael ei chyfeirio yn syth at y Grŵp Ymateb (gweler 22.6.2 isod).
- Gellir rhannu pryderon yn ysgrifenedig neu ar lafar. Os yw’n cael ei wneud ar lafar, bydd angen i’r Swyddog Gweithredol (sef y swyddog yr aethpwyd ato / ati i sôn am y pryder yn wreiddiol) gofnodi cyn gymaint o’r manylion â phosib.
- Er na fydd disgwyl i weithwyr sy’n rhannu pryder i ddarparu tystiolaeth i ddangos fod yr honiad yn wir, fe fydd disgwyl iddynt ddangos i’r Swyddog Gweithredol fod digon o sail i’r honiad.
- Mae rhwydd hynt i weithiwr ofyn am gyngor cyfrinachol gan Undeb Llafur ar sut i rannu pryder o dan y polisi hwn a gall wahodd cynrychiolydd i godi’r mater ar ei ran.
- Mae’r Cyngor yn cydnabod na fyddai rhoi un llwybr yn unig ar gyfer rhannu pryderon yn addas ar gyfer pob sefyllfa; dyna pam ei fod yn rhoi mwy nag un opsiwn i bobl ar gyfer rhannu gwybodaeth. Ni fyddwch dan anfantais am ddewis un o’r opsiynau uchod dros eraill, cyn belled â’ch bod wedi gweithredu’n ddidwyll.

**22.6.2 Grŵp Ymateb Canu'r Gloch**

22.6.2.1 Bydd Grŵp Ymateb Canu'r Gloch yn gweithredu fel fforwm ganolog i asesu pob pryder sy'n cael ei godi trwy'r llwybrau y cyfeirir atynt uchod, ac i benderfynu wedyn ar y ffordd mwyaf priodol o ymdrin ag unrhyw bryder neu ddatgeliad a wneir o dan y Polisi Canu'r Gloch. Rôl y Grŵp Ymateb yw sicrhau fod pob datgeliad yn cael ei ystyried yn deg, yn wrthrychol ac yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, cyn bod yna ystyried pa gamau y dylid eu cymryd er mwyn ymateb.

22.6.2.2 Swyddogion Canu'r Gloch y Cyngor, sef Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog Monitro, sy'n gyfrifol am drefnu Grŵp Ymateb i unrhyw datgeliad sy'n cael ei wneud. Os ydych yn derbyn datgeliad perthnasol felly, dylid hysbysu'r Swyddogion a fydd yn trefnu cyfarfod o'r Grŵp.

Bydd y Grŵp yn gyfrifol am:

- Adolygu manylion y datgeliad cychwynnol;
- Penderfynu a yw'r mater o fewn cwmpas y Polisi, neu a ddylid defnyddio un o bolisïau eraill y Cyngor er mwyn ymdrin â'r pryder;
- Penderfynu a ddylid cynnal asesiad cychwynnol neu ymchwiliad ffurfiol;
- Dyrannu cyfrifoldeb ymchwilio i'r adran berthnasol neu swyddog priodol, gan gadw mewn cof yr angen i flaenoriaethu materion canu'r gloch;
- Sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu'r sawl sydd wedi codi'r pryder rhag unrhyw ddial neu anfantais.
- Sicrhau fod yna gytuno ar drefniadau cyswllt gyda'r sawl sydd wedi codi'r pryder, a bod hynny yn cael ei weithredu yn unol â'r ddealltwriaeth.
- Cadarnhau pwynt cyswllt dynodedig i'r unigolyn sydd wedi gwneud datgeliad.

22.6.2.3 Bydd y Grŵp yn cynnwys rhai neu'r cyfan o'r swyddogion canlynol, gyda hynny yn dibynnu ar union natur y pryder.

- Prif Weithredwr;
- Swyddog Monitro;
- Cyfarwyddwyr Corfforaethol;
- Pennaeth Adran Perthnasol;
- Cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol;
- Cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Cyfreithiol;
- Cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

22.6.2.4 Ni fydd unrhyw aelod o'r Grŵp yn cymryd rhan os yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r mater dan sylw.

## 22.7 Sut bydd y Cyngor yn ymateb

22.7.1 Pan dderbynnir datgeliad o bryder, bydd y Cyngor yn cydnabod derbyn y datgeliad o fewn 10 diwrnod gwaith. Bydd yr ymateb hwn yn cynnwys:

- cadarnhad bod y datgeliad wedi'i dderbyn; a
- disgrifiad byr o'r camau nesaf yn y broses asesu neu ymchwilio.

22.7.2 Os bydd angen gwybodaeth ychwanegol i egluro'r datgeliad neu i helpu gyda'r asesiad cychwynnol, bydd y swyddog perthnasol yn cysylltu â'r sawl sydd wedi codi'r pryder cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl.

22.7.3 Mae'r ffordd y bydd y Cyngor yn gweithredu yn dibynnu ar natur y pryder. Lle bo hynny'n briodol, gall y materion a godir gael:

- eu hymchwilio'n fewnol gan reolwyr, archwilwyr mewnol neu trwy bolisi neu weithdrefn arall sydd gan y Cyngor
- gael eu cyfeirio i brosesau statudol megis trefniadau amddiffyn plant
- gael eu cyfeirio at yr heddlu;
- gael eu cyfeirio i asiantaethau gorfodi allanol megis yr HSE
- gael eu cyfeirio at yr archwiliwr allanol;
- fynd i ymchwiliad annibynnol.

22.7.4 Er mwyn amddiffyn unigolion a'r rheini sy'n cael eu cyhuddo o gamweddau neu gamymarfer posibl, gwneir ymholiadau i gychwyn i benderfynu a yw'n briodol cynnal ymchwiliad, ac os felly, sut ymchwiliad.

22.7.5 Gellir datrys rhai pryderon trwy gytuno ar ba gamau i'w cymryd heb fod angen cynnal ymchwiliad. Os oes angen cymryd camau brys, gwneir hynny cyn cynnal unrhyw ymchwiliad.

22.7.6 Byddwn yn ymrwymo i gwblhau asesiad cychwynnol (hynny yw, asesiad gan y Grŵp Ymateb) o'r pryder o fewn 10 diwrnod gwaith o'i dderbyn (lle bo'n ymarferol), er mwyn penderfynu:

- a oes yna angen ymchwiliad ffurfiol,
- pa weithdrefn sy'n berthnasol, a
- pwy fydd yn gyfrifol ar yr ymchwiliad

22.7.7 Bydd y sawl a gododd y pryder yn cael gwybod pan fydd yr asesiad hwn wedi'i gwblhau a pha gamau nesaf fydd yn cael eu cymryd gan gydnabod fod y wybodaeth y gellir ei rannu yn ddibynnol ar y cyd destun a gofynion cyfreithiol Os yn bosib, byddwn yn pob tro yn ymrwymo i ddiweddaru yr unigolyn sy'n gwneud datgeliad (yn amodol ar gyfyngiadau'r gyfraith).

22.7.8 Os y bu cyfarfod yn cael ei drefnu, bydd gan y gweithiwr sy'n codi'r pryder hawl i ddod â chynrychiolydd undeb gydag ef, neu gydweithiwr nad yw'n gysylltiedig â'r maes gwaith y mae a wnelo'r pryder ag ef. Eto, nid oes pob tro posibilrwydd o drefnu cyfarfod, ac mae ymateb a gweithred yn medru amrywio yn ddibynnol ar gyfyngiadau'r gyfraith.

22.7.9 Bydd y Cyngor yn ceisio rhoi diweddariadau rheolaidd ar gynnydd i'r sawl sydd wedi codi'r pryder, yn unol â gofynion cyfrinachedd a chyfreithiau diogelu data. Fodd bynnag ni ellir gwarantu y bydd modd darparu cynnydd ym mhob achlysur, Fel arfer, bydd diweddariadau'n cael eu darparu:

- pan fydd yr ymchwiliad wedi dechrau'n ffurfiol,
- pan fydd cam pwysig wedi'i gwblhau (e.e. cyfweliadau neu gasglu tystiolaeth), ac
- ar ddiwedd yr ymchwiliad, pan fydd penderfyniad neu ganlyniad wedi'i wneud.

22.7.10 Pan fydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau, bydd y sawl a gododd y pryder yn cael hysbysiad terfynol yn nodi bod y broses wedi dod i ben ac, lle bo hynny'n briodol, crynodeb cyffredinol o'r canlyniad (yn amodol ar gyfyngiadau'r gyfraith).

22.7.11 Bydd y Cyngor yn prosesu unrhyw ddata personol a gesglir yn ystod y broses hon yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data 2018 a GDPR.

**22.8 RHWYSTRO DIAL, ERLID NEU AFLONYDDU**

22.8.1 Mae'n ddealladwy bod chwythwyr chwiban weithiau yn poeni am effeithiau posibl. Ein nod yw annog rhannu gwybodaeth yn agored a byddwn yn cefnogi staff sy'n codi pryderon gwirioneddol o dan y polisi hwn, hyd yn oed os ydynt yn troi allan i fod yn anghywir.

22.8.2 Mae gweithwyr sy'n rhannu pryderon dilys ynghylch achosion o gamymarfer wedi'u hamddiffyn rhag erlid a chael eu diswyddo dan Ddeddf Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998. Ni fydd y Cyngor yn goddef unrhyw ymgais ar ran gweithiwr, cynghorydd, contractwr na chyflenwr i gosbi neu greu anfantais i unigolyn sydd wedi rhannu pryder o dan y polisi hwn. Bydd ymgais o'r fath yn cael ei drin fel trosedd ddisgyblu ddifrifol.

22.8.3 Man gan bob chwythwr chwiban yr hawl i gysylltu'n uniongyrchol a'r Swyddogion Canu'r Gloch neu a'r Pwynt Cyswllt dynodedig os ei bod yn derbyn unrhyw adwaith negyddol, triniaeth andwyol, neu unrhyw fath o niwed o ganlyniad i'w datgeliad. Rhaid i unrhyw bryderon o'r fath cael eu hystyried yn gyfrinachol ac yn llawn tegwch, heb unrhyw ragfarn i'r unigolyn sy'n codi'r mater.

22.8.4 Mae llinell gymorth a chwnsela gyfrinachol ar gael i chwythwyr chwiban sy'n codi pryderon o dan y polisi hwn. Mae eu manylion cyswllt wedi'u nodi ar ddiwedd y polisi hwn.

**22.9 CYFRINACHEDD**

22.9.1 Mae'r Cyngor yn annog pob gweithiwr sy'n rhannu pryder dan y polisi hwn i roi'i enw wrth y gŵyn gan fod honiadau dienw yn llawer gwannach ac yn gallu rhwystro canlyniad unrhyw ymchwiliad.

22.9.2 Os cyfyd sefyllfa lle nad yw'n bosibl datrys y mater heb ddatgelu enw'r gweithiwr a rannodd y pryder, e.e. os bydd angen iddo roi tystiolaeth mewn llys, bydd y swyddogion priodol yn trafod gyda'r gweithiwr pa un a ddylid mynd ymlaen â'r achos ai peidio â sut y gellid gwneud hynny.

22.9.3 Nid ydym yn annog staff i wneud datgeliadau yn ddienw, er y byddwn yn gwneud pob ymdrech i ymchwilio i ddatgeliadau dienw. Dylech fod yn ymwybodol y gall ymchwiliad priodol fod yn anoddach neu'n amhosibl os na allwn gael rhagor o wybodaeth gennych. Mae hefyd yn anoddach sefydlu a yw unrhyw honiadau'n gredadwy.

22.9.4 Ni ddylai cyfrinachedd atal rhannu gwybodaeth pan fo risg i ddiogelwch, trosedd, camymddwyn difrifol yn hysbys neu'n debygol, neu pan fo gofyniad statudol i wneud hynny. Mewn amgylchiadau o'r fath, disgwylir i ymarferwyr rannu gwybodaeth yn briodol ac ymateb yn brydlon er mwyn diogelu unigolion a'r cyhoedd.

22.9.5 Mae'n rhaid i ymarferwyr gan gynnwys cyflogeion, gweithwyr proffesiynol a chontractwyr annibynnol fod yn ymwybodol na allant fod yn anhysbys wrth wneud atgyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol, ac eithrio pan fyddai hynny'n golygu y byddan nhw eu hunain sy'n wynebu risg. Yn yr achos hwn dylid trafod eu pryder amdanyn nhw eu hunain gael ei drafod gyda'r gwasanaethau cymdeithasol.

22.9.6 Dylai chwythwyr chwiban sy'n pryderu am ddial posibl os datgelir eu hunaniaeth ddod ymlaen i'r Swyddogion Canu'r Gloch neu eich pwynt cyswllt dynodedig gan y Grŵp Ymateb a gellir cymryd mesurau priodol wedyn i gadw cyfrinachedd. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, gallwch ofyn am gyngor gan Protect, yr elusen canu'r gloch annibynnol, sy'n cynnig llinell gymorth gyfrinachol. Mae eu manylion cyswllt ar ddiwedd y polisi hwn.

**22.10 HONIADAU FFUG A MALEISUS**

22.10.1 Os bydd gweithiwr yn rhannu pryder dilys ond nad yw'r ymchwiliad yn ei gadarnhau, ni fydd camau yn cael eu cymryd yn ei erbyn. Fodd bynnag, os bydd gweithiwr yn fwriadol yn gwneud honiadau ffug neu faleisus dan y polisi hwn, bydd yr ymddygiad yn cael ei ystyried fel trosedd ddisgyblu ddifrifol.

**22.11 SUT Y GELLIR MYND A'R MATER YMHELLACH**

22.11.1 Os yw'r gweithiwr a rannodd y pryder yn dal i fod yn anfodlon ar ôl cwblhau'r broses fewnol, neu os nad yw'n teimlo ei bod yn briodol i godi'r mater o fewn y Cyngor, gall y gweithiwr wneud datgeliad allanol mewn ffordd ddiogel a chyfreithiol.

22.11.2 Bydd y Cyngor yn parchu hawl unrhyw weithiwr i wneud datgeliad allanol ac yn sicrhau nad yw'r weithred o wneud hynny, os yw'n cael ei wneud yn unol â Deddf Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998, yn arwain at unrhyw ddial, aflonyddu nac anfantais i'r unigolyn dan sylw.

**22.12 DATGELU ALLANOL**

22.12.1 Disgwylir i unrhyw bryderon gael eu rhannu o fewn y Cyngor yn y lle cyntaf. Ond gall fod achosion lle nad yw gweithiwr yn teimlo y gall drafod y mater yn fewnol neu lle nad yw'n teimlo ei bod yn briodol gwneud hynny. Mewn achosion o'r fath, ar yr amod fod y gweithiwr yn gweithredu'n ddidwyll a'i fod yn gallu dangos bod sail resymol a digonol dros ei bryderon, gall godi'r mater yn allanol trwy gysylltu â'r cyrff isod:

- Protect – www.protect-advice.org.uk
- Ombwdsmon Llywodraeth Lleol
- Undeb Llafur
- Cyrff Proffesiynol neu fudiadau rheolaethol perthnasol
- Yr Heddlu

22.12.2 Dylai gweithiwr sy'n penderfynu codi pryder yn allanol sicrhau nad yw'n datgelu gwybodaeth gyfrinachol i rywun sydd heb hawl iddi.

**22.13 Y SWYDDOG SY'N GYFFIROL**

22.13.1 Gan y Prif Weithredwr y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gynnal a gweithredu'r polisi hwn a darparu sicrwydd ynglŷn a'i weithrediad.

22.13.2 Mae gan y Swyddogion Canu'r Gloch gyfrifoldeb gweithredol o ddydd i ddydd am y polisi hwn a dylech gyfeirio unrhyw gwestiynau am y polisi hwn atynt yn y lle cyntaf. Rhaid Swyddogion Canu'r Gloch sicrhau bod hyfforddiant rheolaidd a phriodol yn cael ei ddarparu i'r holl reolwyr a staff eraill a allai ddelio â phryderon neu ymchwiliadau o dan y polisi hwn.

**DEDDFWRIAETH BERTHNASOL**

- **Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998**
- **Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013.**
- **Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996**
- **Deddf Diogelu Data 2018**
- **Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974**
- **Cod Ymarfer ACAS**

**CWNSELA / CEFNOGAETH**

I gyfeirio eich hun am gwnsela:
Rhif Ffon: 01286 679329
Ebost: iechydgalwedigaethol@gwynedd.llyw.cymru

Mewn argyfwng ble mae staff yn dymuno cefnogaeth/cyngor brys tu allan i oriau arferol y Cyngor, mae modd cysylltu a MEDRA yn uniongyrchol ar 0800 132 737 ac bydd aelod o'r tîm yn gallu eich cynorthwyo neu eich cyfeirio ymlaen i asiantaethau priodol.

# NODYN CANLLAW

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall pobl godi pryderon nad ydynt yn dod o dan y diffiniad ffurfiol o chwythu'r chwiban. Gall hyn gynnwys pryderon a godir gan bobl nad ydynt yn aelodau o staff.

Bydd y Cyngor yn ymdrin â'r pryderon hyn yn ofalus ac yn deg, gyda'r un gofal ag y mae'n trin pryderon chwythu'r chwiban. Fodd bynnag, dylid nodi efallai na fydd yr un dyletswyddau na'r un amddiffyniadau cyfreithiol yn berthnasol ym mhob achos.

**Aelodau**
Dylech godi eich pryder gyda'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Gallwch hefyd gysylltu â'r Swyddog Monitro. Os yw'r pryder yn ymwneud â Phennaeth Adran neu'r Swyddog Monitro, gallwch gysylltu gyda'r Prif Weithredwr.

**Llywodraethwyr Ysgol**
Fel arfer, dylech godi eich pryder drwy drefniadau llywodraethu'r ysgol, er enghraifft gyda Chadeirydd y Corff Llywodraethu neu'r Pennaeth Ysgol. Os nad yw hyn yn briodol, neu os yw'r pryder yn ymwneud â'r Cadeirydd neu'r Pennaeth, gallwch gysylltu â swyddog perthnasol y Cyngor, megis Pennaeth Gwasanaeth Addysg, y Swyddog Monitro neu'r Rheolwr Archwilio.


**Partneriaid**
Fel arfer, dylech godi eich pryder gyda'ch rheolwr contract neu brosiect. Fel arall, gallwch gysylltu â'r Prif Swyddog Cyllid neu'r Rheolwr Archwilio.

**Y Cyhoedd**
Fel arfer, dylech ddefnyddio proses gwyno'r Cyngor. Gallwch hefyd gysylltu â'r Cyngor i ofyn am fanylion cyswllt y Prif Swyddog Cyllid neu'r Rheolwr Archwilio, ac yna cysylltu â nhw'n uniongyrchol.

Os nad ydych yn teimlo'n gyfforddus yn rhoi gwybod am eich pryder i'r Cyngor, gallwch ei gyfeirio at y corff allanol perthnasol. Os ydych wedi cwyno wrthym ac yn anfodlon ar ein hymateb, gallwch gyfeirio eich cwyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

.

# Proses Canu Gloch



| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **23 Chwefror 2026** |
| **Teitl :** | **Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch** |
| **Awdur :** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Pwrpas :** | **Adrodd ar opsiynau ar gyfer cyhoeddi manylion y Gofrestr ar wefan Cyngor Gwynedd** |

**Cefndir**

1. Cyflwynir yr adroddiad hwn yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 3 Tachwedd 2025 i dderbyn adroddiad ynghylch opsiynau i gyhoeddi manylion y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch ar wefan Cyngor Gwynedd.

2. Mae'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro o unrhyw gynnig o letygarwch, buddiant materol neu fantais sy'n werth mwy na swm a bennir gan yr awdurdod. Penderfyniad Cyngor Gwynedd mai £25 ddylai'r swm hynny fod, a darparu ymhellach y dylid ei gofrestru pe derbynnir y cynnig hwnnw ai peidio.

3. Mae ffurflen bwrpasol ar gael i gofrestru cynigion o'r fath ac mae copi wedi ei hatodi fel **Atodiad 1**.

**Y Protocol**

4. Mabwysiadodd y Cyngor Brotocol ar Roddion a Lletygarwch Aelodau yn 2004. Yn sgil cyhoeddi Cod Ymddygiad newydd a Chanllawiau gan yr Ombwdsmon adolygwyd y Protocol gan y Pwyllgor Safonau, gan gyflwyno ei argymhellion ar gyfer diwygio'r Protocol i'r Cyngor Llawn. Mabwysiadwyd y Protocol cyfredol gan y Cyngor ar 2 Mai 2013. Atodir copi o'r Protocol fel **Atodiad 2**.

**Y Gofrestr**

6. Mae'r pwyllgor hwn yn y gorffennol wedi trafod priodoldeb cyhoeddi'r gofrestr ar y wefan y Cyngor. Penderfynwyd bryd hynny na ddylid gwneud am y tro. Tra ei bod yn ddyletswydd statudol rhoi'r Gofrestr Fuddiannau Aelodau ar y we nid yw'r un orfodaeth yn ymestyn i'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch.

**Ystyriaethau**

7. Ar hyn o bryd cyflwynir adroddiadau rheolaidd cyhoeddus i'r pwyllgor yn nodi yr hyn sydd ar y gofrestr ond heb enwi'r cynghorwyr dan sylw.

8. Mae'r Protocol yn nodi " *y bydd y gofrestr ar gael i'r cyhoedd i'w archwilio" (para 6.2)*. Mae hefyd wedi ei gynnwys yng Nghynllun Cyhoeddi'r Cyngor fel un o'r Cofrestrau sy'n gyhoeddus, ond ar gael ar ffurf papur yn unig.

9. Seilir y Cod Ymddygiad i Aelodau ar 'Egwyddorion Nolan, sydd hefyd wedi eu cynnwys yn benodol yng Nghod Ymddygiad Cyngor Gwynedd.

Ymysg yr egwyddorion hyn mae

***"Uniondeb a Gwedduster***

*Mae'n rhaid i Aelodau beidio â'u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle y gallai unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu arnynt o ran cyflawni eu dyletswyddau godi amheuon ynglŷn â'u huniondeb. Mae'n rhaid i Aelodau osgoi ymddygiad sy'n ymddangos felly ar bob achlysur…*

***Bod yn Agored***

*Mae'n rhaid i Aelodau fod mor agored â phosibl ynglŷn â'u holl weithredoedd a gweithredoedd eu hawdurdod. Mae'n rhaid iddynt geisio sicrhau bod datgeliadau gwybodaeth yn cael eu cyfyngu yn unol â'r gyfraith yn unig.*

***Atebolrwydd***

*Mae Aelodau'n atebol i'r etholaeth a'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd ac am y ffordd y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel Aelodau. Mae'n rhaid iddynt fod yn barod i ildio i unrhyw graffu sy'n briodol i'w cyfrifoldebau."*

10. Gallai rhai cofrestriadau gynnwys data personol (e.e manylion y person a wnaeth y cynnig) neu wybodaeth arall na fyddai'n briodol ei ddatgelu oherwydd amgylchiadau penodol.

**Casgliadau**

11. Mae trefn o gofrestru cynigion o roddion a lletygarwch yn rhan greiddiol o'r fframwaith foesegol, ac yn hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd drwy alluogi'r cyhoedd i weld cynigion a dderbynnir gan aelodau yn rhinwedd eu dyletswyddau. Mae'n gymorth i gryfhau a chynnal hyder y cyhoedd yn y modd y gwneir penderfyniadau gan hefyd warchod yr aelodau eu hunain rhag unrhyw gyhuddiadau di-sail. Credir bod datgeliad llawn o'r manylion (yn ddarostyngedig i unrhyw ystyriaethau diogelu data neu amgylchiadau arbennig) yn angenrheidiol i gyflawni'r pwrpasau hyn.

12. Yn sgil yr uchod rydym o'r farn y byddai cyhoeddi'r Gofrestr ar wefan y Cyngor yn briodol ac yn cyd-fynd gydag egwyddorion sylfaenol y Fframwaith Foesegol. Serch hynny byddai angen sicrhau fod unrhyw ddatgeliad cyhoeddus yn cwrdd â darpariaethau perthnasol diogelu data.

**Argymhelliad**

13. Gofynnir i’r Pwyllgor ystyried y casgliadau uchod

# Ffurflen cofrestru rhoddion a lletygarwch aelodau
# Members' gifts and hospitality registration form

**Enw**……………………………………………………………………………………………………………………

**1. Manylion y rhodd neu'r lletygarwch a gynigwyd / Details of gift or hospitality offered:**

………………………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………………………

**2. Y person neu'r corff a wnaeth y cynnig / Person or organisation who made the offer:**

………………………………………………………………………………………………………………………....

………………………………………………………………………………………………………………………

**3. A dderbyniwyd y cynnig? / Was offer accepted?**

**Derbyniwyd/Accepted** ☐

**Gwrthodwyd/Refused** ☐

**4. Gwerth y rhodd neu letygarwch / Value of gift or hospitality:**
*(Rhowch amcangyfrif os na fedrwch roddi ffigwr pendant / Put estimate if you cannot provide precise amount)*

………………………………………………………………………………………………………………………

**Arwyddwyd/Signed**…..…………………………………………… **Dyddiad/Date**…………………..………………..

*(I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro / To be returned to the Monitoring Officer)*

ATODIAD.

# PROTOCOL RHODDION A LLETYGARWCH - AELODAU

**1. Cyflwyniad**

1.1 Dylech drin unrhyw gynnig o rodd neu letygarwch a wneir i chi'n bersonol gyda'r gofal mwyaf. Rydych yn gyfrifol am unrhyw benderfyniad i dderbyn rhodd neu letygarwch, a gall eich enw da ac enw da'r Cyngor gael ei beryglu wrth i chi dderbyn rhodd neu letygarwch amhriodol.

1.2 Nid yw'n bosib llunio rheolau pendant a fydd yn addas ar gyfer pob achlysur ond mae'r protocol yma yn cynnig canllawiau i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad.

**2. Y Gyfraith**

2.1 Mae derbyn llwgr wobr yn drosedd. Os profir eich bod wedi derbyn rhodd, benthyciad, ffi, gwobr neu fantais gan rywun sy'n ceisio contract gyda'r Cyngor byddai'n rhaid i chi (a'r sawl wnaeth y cynnig) brofi nad ydych wedi ymddwyn yn anonest.

2.2. Mae'r Côd Ymddygiad aelodau yn dweud ..... "Rhaid i chi osgoi derbyn rhoddion oddi wrth neb, na lletygarwch (ac eithrio lletygarwch swyddogol, megis derbyniad dinesig neu weithio dros ginio, a awdurdodir yn briodol gan eich awdurdod) na buddiannau materol neu wasanaethau i chi eich hun neu i unrhyw berson os byddai gwneud hynny'n eich rhoi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu os gallai'n rhesymol ymddangos fel pe bai'n gwneud hynny."

"Rhaid i chi beidio â defnyddio neu geisio defnyddio yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais yn eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall."

"Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi gael cynnig unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n werth mwy na £25, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno. Rhaid i chi gofrestru cynnig o'r fath pe derbyniwch ef ai peidio."

**3. Egwyddorion.**

3.1 Rhwymedigaeth amhriodol – Ni ddylid byth dderbyn rhodd neu letygarwch fel gwobr neu anogaeth i weithredu mewn ffordd arbennig fel cynghorydd na fel modd o brynu dylanwad.

3.2 Budd i'r Cyngor – Dylid ond derbyn rhodd neu letygarwch os daw budd i'r Cyngor o wneud hynny. Dylai'r budd fod cymesur â'r rhodd.

3.3 Camddehongli - Ni ddylid derbyn rhodd neu letygarwch pe byddai gwneud hynny yn gadael y Cyngor neu'r aelod yn agored i gyhuddiad o gamymddwyn. Nid yn unig mae'n rhaid ymddwyn yn briodol, mae'n rhaid i aelodau hefyd gael eu gweld yn ymddwyn yn briodol.

3.4 Deisyfu rhodd neu letygarwch - Ni ddylid byth ofyn am neu wahodd rhodd neu letygarwch mewn cyswllt a rôl aelod fel cynghorydd.

**4. Rhoddion**

4.1 Mae "rhodd" yn cynnwys nwyddau a gwasanaethau am ddim, y siawns i brynu nwyddau/gwasanaethau gyda gostyngiad neu ar dermau nad ydynt ar gael i'r cyhoedd, neu siawns i brynu nwyddau/gwasanaethau nad ydynt ar gael i'r cyhoedd. Dylid bod yn wyliadwrus o sefyllfaoedd lle archebir gwaith neu nwyddau ond nad oes anfoneb yn cael ei chyflwyno.

4.2 Cewch dderbyn rhoddion dinesig ar ran y Cyngor. Nid yw'r protocol hwn yn berthnasol i'r fath roddion ac nid oes rhaid eu cofrestru 'chwaith.

4.3 Ni ddylech dderbyn rhoddion personol, sy'n berthnasol i'ch safle fel aelod neu'n codi ohono, gan unrhyw un. Serch hynny, mae'n iawn i chi gadw rhoddion bychan a dinod megis beiros, dyddiaduron a.y.b. Hefyd gallwch dderbyn gwobrau raffl.

4.4 Dylech wrthod unrhyw rodd a gynigir i chwi, neu i aelod o'ch teulu agos, gan unrhyw berson neu gorff sydd yn gwneud, neu sydd yn dymuno gwneud, busnes gyda'r Cyngor neu sy'n ceisio penderfyniad gan y Cyngor.

4.5 Wrth wrthod rhodd dylid dweud yn gwrtais ond yn gadarn wrth y cynigydd pa weithdrefnau a safonau sy'n weithredol o fewn y Cyngor. Os anfonir rhodd o'r fath

- rhaid ei dychwelyd yn syth i'r anfonwr gydag eglurhad.
- dylid cofrestru derbyn a dychwelyd y rhodd os yw yn werth dros £25.
- lle bo cynigydd yn mynnu eich bod yn derbyn rhodd, rhaid i chi gysylltu â'r Swyddog Monitro am gyngor ynglŷn â'r modd i weithredu.

**5. Lletygarwch**

5.1 Ni ddylech dderbyn lletygarwch gan berson neu gorff sydd yn, neu'n sy'n dymuno, gwneud busnes gyda'r Cyngor, neu sy'n ceisio penderfyniad gan y Cyngor oni bai ei fod yn rhan o gyflwyniad cyffredinol i'r cyhoedd.

5.2 Ni ddylech dderbyn cynigion o letygarwch oni bai fod gwir angen i gyfrannu gwybodaeth neu gynrychioli'r Cyngor yn y gymuned.

5.3 Dylech osgoi lletygarwch mewn sefyllfaoedd lle mai chi fydd yr unig westai.

5.4 Ni ddylech dderbyn cynigion i fynychu achlysuron cymdeithasol neu chwaraeon oni bai eu bod yn rhan o fywyd y gymuned neu fod disgwyl i'r Cyngor gael ei gynrychioli yno.

5.6 Lle bydd angen ymweliadau fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, dylech sicrhau bod y Cyngor yn ariannu'r ymweliadau hynny er mwyn diogelu tegwch y penderfyniadau sydd yn deillio ohonynt.

5.7 Bydd yn dderbyniol i chi dderbyn lletygarwch trwy fod yn bresennol mewn cynadleddau a chyrsiau perthnasol lle bydd yn amlwg mai corfforaethol ac nid personol yw'r lletygarwch, lle bydd y Cyngor yn rhoi caniatâd ymlaen llaw a lle sicrheir y Cyngor na chyfaddawdir unrhyw benderfyniadau gan y Cyngor.

5.8 Medrwch dderbyn lluniaeth arferol mewn cysylltiad â'ch gwaith fel aelod (te, coffi, bisgedi a.y.b).

**6. Cofrestru**

6.1 O dan Gôd Ymddygiad y Cyngor mae'n rhaid i chi gofrestru unrhyw rodd neu letygarwch a gewch sy'n werth dros £25. Hefyd dylech gofrestru unrhyw gynnig yr ydych yn ei wrthod ac sy'n werth dros £25.

6.2 Cedwir y gofrestr rhoddion a lletygarwch gan y Swyddog Monitro a dylid ei hysbysu'n ysgrifenedig o unrhyw rodd neu letygarwch a dderbynnir neu a wrthodir sy'n werth dros £25. Bydd y gofrestr ar gael i'r cyhoedd ei archwilio.

6.3 Rhaid cofio mai ffigwr ar gyfer cofrestru yw £25 ac nid yw'n golygu'n angenrheidiol y medrwch dderbyn unrhyw rodd neu letygarwch sy'n werth llai na hynny. Rhaid i chi ystyried yn ofalus bob cynnig beth bynnag fo'i werth.

**7. Cyngor Pellach.**

7.1 Os oes gennych amheuaeth ynglŷn ag unrhyw gynnig, dylech ofyn am gyngor y Swyddog Monitro.

7.2 Mae'r Ombwdsmon wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar y Côd Ymddygiad a sut i'w ddehongli. Gellir eu gweld ar ei wefan - www.ombudsman-wales.org.uk